"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1876. [RHIF 35.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth Angladdol y diweddar Barchedig Stephenson Hunter...	241
Yr Addoliad Cyhoeddus	246
Deg o Wahaniaethau rhwng Undodiaeth ac "Iawnffyddiaeth"	251
Teithiau Cenadol y Parch. J. Davies, Alltyplaca	254
Llith o Gwmbychan	260
Manion	261
Gohebiaethau	261
Marwgofion	262
Barddoniaeth	264

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

...FFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1876. [RHIF. 35.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y DIWEDDAR BARCHEDIG STEPHENSON HUNTER,

PREGETH GAN Y PARCHEDIG W. MORGAN.

WELE yn canlyn gyfieithad o bregeth angladdol y Parch. Mr. Hunter, yr hon a draddodwyd yn y Capel Undodaidd yn Nghaerfyrddin, gan y Parch. William Morgan (Annibynwr), un o Athrawon y Coleg Henadurol. Wedi ychydig o ragymadrodd, yn yr hwn y sylwodd nad oedd yn arferol o bregethu yn Saesneg, dywedodd,—

"Yr oedd genyf y parch dyfnaf tuag at ein cyfaill ymadawedig. Yr oeddwn yn ei adwaen er ys pymtheg mlynedd, ac yn neilduol felly er ys tair blynedd ar ddeg. Ni syrthiodd i fy rhan erioed i gymdeithasu â dyn mwy hynaws, a chyfaill mwy cywir. Yr oedd yn foneddwr perffaith, ac yn ddyn da yn ystyr fanylaf y gair. Nid wyf yn pryderu dywedyd, fod ei ymadawiad wedi gadael bwlch yn fy hanes nas gellir ei lanw, a pha un bynag ai llawer ynte ychydig fyddo fy nyddiau, ni chrybwyllaf ei enw byth ond gyda'r parch dyfnaf. Dymuniadau dwysaf fy nghalon ydynt i fantell ei ragoriaethau syrthio ar ei olynydd. Etto, anfynych iawn ydwyf yn traddodi pregethau angladdol; yn ystod y saith mlynedd ar hugain ydwyf wedi bod yn y weinidogaeth, yr wyf feallai wedi pregethu rhyw hanner dwsin o bregethau felly. Ac y mae yn amheus iawn genyf a ellid yn briodol galw un o honynt yn bregeth angladdol, oblegyd yr wyf yn llefaru nid am y marw, ond wrth y byw. Gwnaf yr un peth y bore yma. Ceir geiriau y testyn yn Jeremiah ix. 23, 24,—'Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Nac ymffrostied y doeth yn ei ddoethineb, ac nac ymffrostied y cryf yn ei gryfder, ac nac ymffrostied y cyfoethog yn ei gyfoeth; eithr y neb a ymffrostio, ymffrostied yn hyn, ei fod yn deall, ac yn fy adnabod i, mai myfi yw'r Arglwydd a wna drugaredd, barn a chyfiawnder yn y ddaear: o herwydd yn y rhai hyny yr ymhyfrydais, medd yr Arglwydd.'

Yn y bennod yma, mae y proffwyd yn ffyddlon yn ceryddu pechod, ac yn bygwth barn Duw am dano, ac etto yn galaru yn chwerw am nad oedd yn cael ei foddloni gan anwiredd, nac yn llawenhau mewn drygfyd. Mae yn datgan ei ofid mawr am drueni Judah a Jerusalem, a'i gasineb at eu pechodau, y rhai a ddygasant y trueni hyny arnynt. Mae yn cyfiawnhau Duw yn mawredd y dinystr a ddygwydd arnynt. Mae yn galw ar ereill i alaru cyflwr truenus Judah a Jerusalem, ac yn y testyn mae yn dangos iddynt y gwagedd o ymffrostio mewn doethineb, neu gryfder, neu gyfoeth, gan mai Duw yw'r unig wrthddrych priodol i ymffrostio ynddo. Mae dynolryw yn ymffrostio yn y pethau hyny trwy y rhai y cyfrifant eu hunain yn cael eu dyrchafu uwchlaw ereill, ac y gwnant eu hunain yn deilwng o glod a pharch ac edmygedd, yn yr hyn y maent yn ymlawenhau, yr hyn a wnant yn wrthddrych eu hymffrost, ac oddiwrth yr hyn y dysgwyliant ddyogelwch a dedwyddwch. Mae'r pethau a nodir yn y testyn yn bethau y mae dynion yn agored iawn i ymffrostio ynddynt,—y doeth yn ei ddoethineb, y cryf yn ei gryfder, y cyfoethog yn ei gyfoeth; ac ymddangosant megys yn rhanu y teulu dynol, fel yr ydym braidd yn edrych arnynt fel yn anhebgorol i gymdeithas wareiddiedig. Mae tuedd yn y doeth i edrych gyda dirmyg ar y ffol, a'r un modd y cryf ar y gwan, ac y mae y tlawd yn eiddigeddus o'r cyfoethog. Mae yn debygol fod cyfoeth yn cael ei enwi yn olaf am fod cryfder a doethineb yn wrthddrychau y gellir eu prynu. Gall y cyfoethog fod yn ddiffygiol mewn doethineb a chryfder, ond y mae'r cryf a'r doeth yn foddlon gwasanaethu y dyn cyfoethog; mae doethineb a chryfder yn wastad yn cael eu cyflwyno ar allor cyfoeth. Mae genym yn y testyn yn gyntaf y meddyliol, yna yr anianol, ac yn ddiweddaf y materol; ac y mae'r ysgrifenydd ysprydoledig yn dywedyd na ddylem ni ddim ymffrostio yn y naill na'r llall. Yn y bedwaredd adnod ar hugain, mae wedi enwi rhywbeth y gallwn ymffrostio ynddo, sef deall ac adnabod yr Arglwydd fel Duw sydd yn gwneuthur trugaredd a barn a chyfiawnder. Nid adnabod ei anfeidroldeb a'i dragwyddoldeb—nid ei adnabod fel y Creawdwr a Chynnaliwr y byd naturiol—nid adnabod a deall ei holl-wybodaeth, ei holl-alluogrwydd, a'i holl-bresenoldeb,—mae y cyfryw wybodaeth yn rhy ryfedd i ni, ni fedrwn oddiwrthi; nid adnabod ei briodoleddau naturiol, ond ei briodoleddau moesol,—ei drugaredd, ei farn, a'i gyfiawnder,—ei adnabod lle y gall creaduriaid meidrol ei adnabod—yn y nodweddau hyny o'i gymmeriad yn y rhai y mae yn ymhyfrydu. Mae yn rhywbeth mwy nag adnabod ei weithredoedd a'i hanes, ei adnabod mewn gair fel Duw'r Cariad; a lle yr adwaenir Ef felly yn gywir, fe'i ofnir hefyd, credir ac ymddiriedir ynddo, cerir ac addolir Ef, ac ufuddheir iddo. Mae'r wybodaeth hon ar ol ei chael, yn rheoleiddio y deall, y farn, y gydwybod, yr ewyllys, y serch, a holl alluoedd a gweithrediadau yr enaid, ac y mae yn dwyn ei meddianydd i'w le priodol, wrth draed yr Iachawdwr, ac yn ei ddwyn i ymostyngiad gerbron gorsedd Duw sydd yn caru maddeu.

Mae'r testyn yn cynnwys gwaharddiad a gorchymyn. Y gwaharddiad yw, nad ydym ni ddim i ymffrostio mewn doethineb, na chryfder,

na chyfoeth; y gorchymyn yw, i ymffrostio mewn adnabod a deall Duw. Mewn geiriau ereill, nid ydym i ymffrostio yn y materol—cyfoeth; ond gallwn ymffrostio yn y moesol—hyny yw, mewn adnabod Duw. Mae'r gwaharddiad a'r gorchymyn yn dangos nad yw ymffrostio ynddo'i hunan na da na drwg, gall fod y naill neu y llall, ei fod yn dda pan fo'r gwrthddrych yn deilwng, yn ddrwg pan fyddo'n annheilwng. Gwaharddir ni i beidio ymffrostio yn y materol, yr anianol, na'r meddyliol, a gorchymynir ni i ymffrostio yn y moesol. Mae'r gwaharddiad yn profi fod pethau da yn bod yn y rhai ni ddylem ymffrostio; mae cyfoeth yn beth da, cryfder yn beth da, a doethineb yn beth da; ac nid yn unig mae y rhai hyn yn bethau da, ond pethau da Duw ydynt, oblegyd dywedodd, 'Yr aur a'r arian eiddo fi ydynt, a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd.' Efe hefyd yw awdwr ein cyfansoddiadau anianol a meddyliol; ond gwaharddir ni yn y testyn i ymffrostio yn y naill na'r llall.

Cymmeraf olwg ar y gwaharddiad a'r gorchymyn, a rhoddaf ychydig resymau paham y dylem beidio ymffrostio yn y materol, yr anianol. na'r meddyliol, a phaham y dylem ymffrostio yn y moesol. Ni ddylem ymffrostio mewn cyfoeth, na chryfder na doethineb, oblegyd maent yn gyfnewidiol; ond y mae Duw yn annghyfnewidiol. Nid yw yn ddoeth i ymffrostio mewn pethau cyfnewidiol, oblegyd mae y cyfnewidiad lleiaf mewn unrhyw beth yn brawf ei fod yn ddiflanol. Mae unrhyw beth sydd yn agored i'r cyfnewidiad lleiaf yn agored hefyd i'r cyfnewidiad mwyaf, fel nad oes dim sicrwydd na fydd iddo gyfnewid yn hollol,—hyny yw, cyfoeth yn dlodi, cryfder yn wendid, a doethineb yn ffolineb; nid yw yn ddoeth gan hyny i ymffrostio mewn pethau cyfnewidiol. Hawdd iawn yw argyhoeddi pob meddwl diragfarn fod cyfoeth, a chryfder, a doethineb yn gyfnewidiol. Dyry hanes i ni ugeiniau o enghreifftiau o rai o'r dynion cyfoethocaf yn treulio eu dyddiau diweddaf yn y tlodi mwyaf; mae'r dynion cryfaf yn dyfod yn wan fel plant, a rhai o'r dealltwriaethau coethaf yn terfynu eu dyddiau mewn *lunatic asylums*. Ymddengys y ddaear yma fel megys yn annghyfnewidiol; mae un genedlaeth yn myned heibio, a chenedlaeth arall yn dyfod ar ei hol; ond mae y ddaear yn parhau byth; y mynyddoedd yn ymddangos yn sefydlog, ac am hyny yn cael eu galw y bryniau tragwyddol; ond dywed y proffwyd Jeremiah, 'Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symmudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt.' Dywedir hefyd, 'Yn y dechreuad, ti Arglwydd a seiliaist y ddaear, a'r nefoedd ydynt waith dy ddwylaw. Hwy a ddarfyddant, a thi a barhei; ie, hwy oll a heneiddiant fel dilledyn; fel gwisg y newidi hwynt, a hwy a newidir. Tithau yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.' Gan hyny Duw yw yr unig fod annghyfnewidiol, ac ynddo ef yn unig y dylem ymffrostio. Nid oes gogoniant hanfodol mewn cyfoeth, cryfder, neu ddoethineb, am mai pethau derbyniedig ydynt; ond y mae gogoniant yn hanfodol i Dduw. Pa ardderchawgrwydd bynag sydd yn perthyn i gyfoeth, cryfder, neu ddoethineb, y mae yr oll yn tarddu o Dduw. Na fawrygwch y ffrwd,

ond y ffynnon. Nac ymffrostiwch yn y creadur, ond yn y Creawdwr. Mae ardderchawgrwydd cyfoeth, cryfder, a doethineb yn ymddibynu ar amgylchiadau. Y prinder sydd yn achosi y gwerth. Nid yw dynion yn ymffrostio am fod ganddynt ddau lygad neu bump synwyr, oblegyd eu bod gan bawb; a phe byddai pawb yn gyfoethog, ni wnai neb ymffrostio yn ei gyfoeth; a phe byddai pawb yn gryfion, ni wnai neb ymffrostio yn ei gryfder; a phe byddai pawb yn ddoethion, ni wnai neb ymffrostio yn ei ddoethineb; ond pe byddai pawb yn dda, gallent ymffrostio yn hyny, oblegyd y mae gogoniant hanfodol mewn daioni. Mae yr holl angylion ac ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, yn y nefoedd, yn dda, ac y maent yn ymffrostio yn Nuw. Cyfoeth, cryfder, a doethineb ydynt foddion, ond y mae adnabod Duw yn ddyben ynddo ei hun, ac y mae y dyben yn well nâ'r moddion. Er engraifft, mae iechyd yn well nâ meddyginiaeth,—meddyginiaeth yw y moddion, iechyd yw y dyben. Yr ymborth ydym yn gymmeryd er cynnal bywyd ydyw y moddion, cynnaliaeth bywyd yw y dyben. Beth yw cyfoeth ond moddion i gyrhaedd angenrheidiau bywyd? Beth yw cryfder ond moddion i orchfygu anhawsderau bywyd? Beth yw doethineb ond moddion i drin a threfnu achosion bywyd? Pan yn cychwyn mewn bywyd, nid yw dynion yn caru aur ynddo ei hun, ond ar gyfrif yr hyn a brynir ag ef, a bron yr un fath gyda chryfder a doethineb; ond y mae adnabod a deall Duw yn ddyben ynddo ei hun—pwynt uchaf bodolaeth ydyw; nis gall dyn marwol ymgeisio am ddim yn uwch. Nac ymffrostiwch mewn cyfoeth, cryfder, na doethineb, am eu bod yn llai gwerthfawr nag adnabod a deall Duw. Pa agosaf i'r dyn ei hun y byddo y gwrthddrych y mae yn ymffrostio ynddo, mwyaf oll y mae i'w gyfiawnhau am wneuthur hyny. Mae cyfoeth tu allan i ddyn—hyny yw, nid yw yn rhan o hono ei hun; ond mae cryfder yn rhan o'i gyfansoddiad anianol, mae doethineb yn rhan o'i gyfansoddiad meddyliol; ond y mae daioni yn rhan o'i gyfansoddiad moesol. Yr wyf yn gosod cyfoeth ar waelod y raddfa. Cymmerwch y dyn cyfoethog a'r dyn cryf, ac edrychwch arnynt fel personau unigol llwyr ar benau eu hunain. Yr wyf o'r farn fod y dyn cryf yn llawer amgenach nâ'r dyn cyfoethog, ac o ganlyniad fod gan y cryf fwy o hawl i ymffrostio yn ei gryfder nâ'r cyfoethog yn ei gyfoeth; ac fel y mae y meddyliol yn uwch nâ'r anianol, fod gan y doeth fwy o hawl i ymffrostio yn ei ddoethineb nâ'r cryf yn ei gryfder; ac fel y mae y moesol yn uwch nâ'r meddyliol, fod gan y dyn da fwy o hawl i ymffrostio yn ei ddaioni nâ'r doeth yn ei ddoethineb. Yr wyf yn gosod cyfoeth yn isaf yn y raddfa, yna daw cryfder, yna doethineb, ac yn uwchaf oll ar ben y raddfa saif *daioni*. Ni ddylem gan hyny ymffrostio yn y llai a'r lleiaf gwerthfawr, ond yn y gwerthfawrocaf oll; ac mae y testyn yn cynnwys gwaharddiad mewn perthynas i gyfoeth, cryfder a doethineb, a gorchymyn mewn perthynas i ddaioni. 'Nac ymffrostied y doeth yn ei ddoethineb, &c., ond y neb a ymffrostio, ymffrostied yn hyn, ei fod yn deall, ac yn fy adnabod i,' &c. Y mae effaith adnabyddiaeth o Dduw ar ei meddianydd yn rhagorach. Mae cyfoeth yn dylanwadu ar y dyn cyfoethog, cryfder ar y cryf, doethineb ar y doeth, a daioni

ar y dyn da; ond effaith daioni yw y goreu, am ei bod yn sicr o ddysgu gostyngeiddrwydd. Nid wyf yn dywedyd fod cyfoeth bob amser yn gwneuthur y cyfoethog yn falch, na chryfder yn gwneuthur y cryf yn falch, na doethineb y doeth yn falch; ond pan wnant yr hyn a waherddir yn y testyn y mae yn brawf o falchder, ac y mae y dyn balch yn wastad yn ddiffygiol mewn hunan-adnabyddiaeth, y wybodaeth anhawddaf i'w chyrhaedd, ond y mwyaf gwerthfawr wedi y cyrhaeddir hi. Mae yn gwneuthur ei meddianydd yn debyg i Grist, yr hwn oedd fawr, ond nid yn falch; gostyngedig, etto anrhydeddus. Gorchfygodd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid ugeiniau o weithiau mewn ymresymiad, ond ni chafwyd allan erioed ei fod yn gwneuthur ymffrost o hyny. Yr oedd yn ddigon gostyngedig i eistedd gyda phublicanod a phechaduriaid, ond ni ddarfu iddo erioed wenieithio i'r Pharisead balch; ac y mae y wybodaeth a gymmeradwyir yn y testyn yn sicrhau mawredd heb falchder, a gostyngeiddrwydd heb iselni. Hefyd mae yn dysgu hunanlywodraeth. Gorchfyga cyfoeth, cryfder a doethineb y byd oddiallan; ond gwna y dyn ag sydd yn adnabod a deall Duw orchfygu y byd oddimewn—hyny yw, efe a ddysg hunanlywodraeth. Y mae cyfoeth, cryfder, a'r meddwl dynol wedi gorchfygu rhai o'r dinasoedd mwyaf ddarfu erioed fodoli; ond dywed Solomon mai 'gwell yw y neb a reola ei yspryd ei hun nâ'r hwn a ennilla ddinas.' Drachefn, mae y wybodaeth hon yn fwy boddhaol i'r meddwl. Ni all cyfoeth, cryfder a doethineb ddiwallu angenion y meddwl dynol—nid ydynt gyfaddasedig at hyny; ni ddichon y materol a'r anianol ddiwallu yr yspryd ol, ac ni wna doethineb ei meddianydd yn ddedwydd. Mae llawer o ddynion doethion yn ddedwydd, ond mae llawer llawn mor ddoeth yn annedwydd. Os darfu i ddoethineb wneuthur un dyn yn ddedwydd, hi wnai un arall yn annedwydd; a phe byddai i ddoethineb sicrhau dedwyddwch, y dyn doethaf fyddai y dyn dedwyddaf; ond y mae hanes Solomon yn profi mai nid felly y mae, o ganlyniad nid yw doethineb yn unig yn ddigon i wneyd y meddwl yn ddedwydd. Ond y mae y wybodaeth a gynnygir yn y testyn yn diwallu y meddwl, ac mae y dyn sydd yn feddianol arni yn ddedwydd.

Ni ddylem ymffrostio mewn cyfoeth, cryfder, a doethineb, oblegyd ni roddant gymhorth pan fyddo fwyaf o'u hangen; hyny yw, pan yn colli cyfeillion, mewn cystudd, ac yn awr marwolaeth. Ni all cyfoeth, cryfder, a doethineb wneyd ein cyfeillion yn anfarwol, ni allant rwystro ergyd marwolaeth, ni allant iachau yr archoll achoswyd drwy eu colli; ond gwna y wybodaeth a gymmeradwyir i'n sylw yn y testyn ein dysgu i dewi gydag Aaron, i ymdawelu gydag Eli, a bod yn ddiolchgar gyda Job, yr hwn a ddywedodd, 'Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymmerodd ymaith, bendigedig fyddo enw yr Arglwydd.' Drachefn, mewn cystudd ac yn awr marwolaeth, mae cryfder wedi ymadael, mae cyfoeth wedi sicrhau y cynghor meddygol goreu, ond mae yr afiechyd wedi gorchfygu ei ddyfais, fel ag y mae doethineb wedi dyfod yn ddirym. Ond dywed crefydd y pryd hwnw, 'Ni ddaw cystudd allan o'r pridd,

ac ni flagura gofid allan o'r ddaear; mae llaw y Duw hwnw yr hwn a adwaenost yn y cyfan.' Mae y cystudd yn parhau o ddydd i ddydd, ac o wythnos i wythnos, ac fe ddywed crefydd drachefn, 'Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni.' Mae yn amlwg fod angau wedi myned i mewn i'r ystafell, ond dywed crefydd, 'Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid ofnaf niwed: canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cyssurant.' Pan mae cyfeillion a pherthynasau anwylaf ac agosaf yn gorfod gadael yr ystafell, y Duw, yr hwn y mae y dyn da yn adnabod ac yn ymffrostio ynddo, a ddywed wrtho, 'Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd fel na lifant drosot: pan rodiech drwy y tân, ni'th losgir; ac ni ennyn y fflam arnat.' A phan fyddo wedi glanio yn ddyogel yr ochr draw caiff ei ei wahodd fel 'gwas da a ffyddlawn' i gymdeithas y rhai hyny, y rhai fel ei hunan a adnabyddant yr Arglwydd fel Duw trugarog, cyfiawn, a chywir, a bydd iddo ymffrostio ynddo dros byth.

Wrth derfynu gadewch i mi ddweyd y dylem fod yn ddiolchgar iawn fod gwir ogoniant yn gyssylltiedig â'r hyn sydd o fewn cyrhaedd pob un o honom,—ond mae yn gyssylltiedig â daioni. Ychydig yw y cyfoethog, y cryfion ydynt fe ddichon yn llai llwosog, a'r doethion yn llai llwosog fyth, ond gall pawb fod yn dda. Wrth y dyn cyfoethog dymunwn ddweyd: Defnyddia dy gyfoeth heb ei gamddefnyddio, a bydd ddiolchgar i Dduw am dano ond nac ymffrostia ynddo. Wrth y dyn cryf dymunwn ddweyd: Diolch i Dduw am dy gryfder a gwna ddefnydd o hono at amcan priodol, ond nac ymffrostia ynddo. Dymunwn ddweyd wrth y doeth: Yr ydwyt yn ddyledus i Dduw am dy ddoethineb, defnyddia hi i'r dyben o wassanaethu yr oes a'r genedlaeth yn y rhai yr ydwyt yn byw, ond, nac ymffrostia ynddi. A'r gofyniad a ddymunwn roddi i'r dyn cyfoethog, y dyn cryf, a'r dyn doeth, dymunaf ei roddi i bob un yn y gynnulleidfa hon, sef, A oes genyt rywbeth i ymffrostio ynddo? Os nad oes, dy fai di ydyw. Dichon nad ydwyt i'th feio am nad ydwyt yn gyfoethog, am nad ydwyt yn gryf, nad ydwyt yn ddoeth, ond wyt yn euog ger bron Duw os nad ydwyt yn *dda*; a dylem fod yn ddiolchgar iawn am ei bod yn ddichonadwy i ni oll gyrhaedd y wybodaeth a gymmeradwyir yn y testyn. Amen.

YR ADDOLIAD CYHOEDDUS.

"Heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain."—Heb. x. 25.

Fy amcan yn yr erthygl hon ydyw sylwi a manylu ychydig ar rai o'r esgusodion sydd yn cael eu dwyn yn mlaen yn fynych iawn gan ddynion perthynol i bob enwad crefyddol y gwyddom ni am dano, dros omedd mynychu yr addoliad cyhoeddus. Ni ddymunwn fod yn galed, yn afresymol, nac yn anngharedig. Gwyddom am lawer o ddynion

a garent fynychu y cyfryw sydd yn cael eu cadw o hono gan afiechyd, tywydd garw, henaint, a phethau ereill. Gwyddom am lawer brawd a chwaer na roddai dim braidd gymmaint o gyssur a mwyniant iddynt a myned i dŷ Dduw i uno â'u cyfeillion, eu brodyr a'u chwiorydd Cristionogol yn yr addoliad cyhoeddus; ond y maent dan orfodaeth i aros yn y cornel gartref, neu ar wely cystudd. Nid esgusodion y rhai yna ond rhesymau anwrthwynebol.

Ond i ddyfod at y pwnc. Yr esgus cyntaf gawn sylwi arno yw hwn —eisieu *dillad addas*. Y mae hwn yn cael ei ddwyn yn mlaen gan ddau ddosparth gwahanol iawn. Y cyntaf yw y rhai sydd anfoddlon i wneyd eu hymddangosiad yn yr eglwys neu y capel, oddieithr iddynt allu gwneyd cystal ymddangosiad mewn gwisg allanol a'r mwyaf llwyddianus yn eu sefyllfa hwy, neu y dosparth y perthynant iddo. Arosant gartref am na allant ymddangos yn yr addoliad cyhoeddus mewn dillad gwychion. Yn awr, onid yw y cyfryw yn gweithredu yn annoeth yn wir? Onid yw eu habsenoldeb yn cael ei achosi gan falchder anweddus? Ac onid yw yn dwyn y canlyniadau mwyaf anhappus a gresynus? Os meddyliwn fwy am ein gwisgoedd cyn ac wedi dyfod i dŷ Dduw nag am y gwasanaeth, ni all fod o un lles i ni. Tra yn ceisio cymmeradwyaeth ein cydgreaduriaid, a ydyw yn bossibl i ni uno yn galonog i addoli ein Creawdwr? A fydd i ardderchogrwydd ac ysbleneidd-dra ein dillad i wneyd ein haddoliad yn fwy derbyniol gan Dduw? A ydym ni yn cydgyfarfod â'n gilydd ar y Sul i arddangos ein chwaeth a'n ffasiwn, ac i dynu sylw, a sicrhau canmoliaeth ein cydddynion, neu i ymgrymu i lawr mewn gostyngeiddrwydd a diolchgarwch o flaen Tad ein hysprydoedd a byw, gyda'r hwn nid oes dim derbyn wyneb, a'r hwn nad yw yn barnu neb yn ol ymddangosiad allanol, ond yn edrych ar y galon, ac yn rhoddi gras i'r gostyngedig o yspryd? O na fydded i falchder pechadurus fod yn foddion i atal un dyn rhag dyfod i dŷ Dduw i'w addoli yn mhrydferthwch santeiddrwydd gyda'r isel, y pur o galon, a'r gostyngedig ei yspryd. Meddyliwn fwy am wisgoedd Sabbothol a dyddiol yr enaid, a llai am addurno ein cyrff pan ydym yn parotoi i fyned i dŷ ein Tad nefol.

Y dosparth arall sydd yn gwneyd yr esgus yma yw y sawl mai allwyddiant wedi eu darostwng i gyfiwr ac amgylchiadau isel. Y sawl sydd wedi bod yn fawr yn ngholwg y byd un amser, ac yn cael eu parchu ganddo a pharch arwynebol, ond yn awr yn ddisylw ganddo. Y mae y dosparth hwn yn wir yn teilyngu cydymdeimlad Cristionogol, ond oblegyd fod y Rhagluniaeth ddwyfol, *efallai*, wedi eich amddifadu o un fendith, a ydych chwi mor annoeth a phenderfynu amddifadu eich hunan o fendith annghydmarol fwy? A ganiatewch i yspryd ystyfnig eich cadw o dŷ Dduw, lle y bydd y meddwl i gael ei daweln a'i gymmodi â'r hyn sydd yn ymddangos yn groes i'ch ewyllys? Wrth wneuthur felly, gallnogir chwi i ddweyd fel y dywedai yr Iesu pan yn y cyfyngder mwyaf, "Dy ewyllys di, O Dad, a wneler." Dylai yr uchel a'r isel, y dysgedig a'r annysgedig, y tlawd a'r cyfoethog, gydgyfarfod â'u gilydd ar yr un tir o gydraddoldeb yn yr eglwys, a theimlo a sylweddoli eu hymddibyniad cyfangwbl ar y Bôd anfeidrol ddoeth a

da sydd wedi ein gwneyd i wahaniaethu oddiwrth ein gilydd mewn mwy nâ nag un ystyr. Yma y mae y rhan dda yn cael ei chynnyg i chwi. Yma gellwch gael y trysorau ysprydol hyny na ellir eu llygru na'u difa. Yma gellwch gael eich dwyn i'r meddiant o'r cariad hwnw sydd yn bwrw allan ofn. Yma gellwch sicrhau hawl i etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, diddiflanedig, yn ngadw yn y nefoedd i chwi. Yma cynnygir i chwi feddyginiaeth effeithiol i wella eich cystuddiau amserol a daearol. Ac oblegyd eich bod wedi colli rhai o'r pethau sydd yn darfod—y pethau a welir—a wrthodwch chwi y cyfoeth nad yw yn diflanu fel tarth ac yn darfod? Oh! nac anghofiwn ddal cymmundeb â'r nefoedd yn yr addoliad cyhoeddus, nac mewn un man arall. Y mae unrhyw wisg nad ŷw yn denu sylw ereill, naill ai trwy ei llwmder neu eu hyspleneidd-dra, yn addas i dŷ Dduw. Nid ŷw Efe yn edrych ar hono, fel y dywedwyd yn barod, ond ar yr enaid. Esgus gwael iawn gan hyny i'w ddwyn yn mlaen yw dweyd nad oes genych ddillad addas i fyned i dŷ Dduw.

Yr ail esgus gawn sylwi arno yw—*lludded fyddo wedi cael ei achosi gan lafur ddoe.* Gwyddom yn eithaf da fod rhai amserau a thymhorau, pan y mae llafur mwy nag arferol, yn angenrheidiol, yr hyn yn ddiau sydd yn annghymhwyso dyn i fynychu yr addoliad cyhoeddus ar y Sul, ond anfynych iawn y mae hyny yn dygwydd. Credwn ni y buasai dyn yn teimlo yn llawer gwell o fynychu yr addoliad cyhoeddus, ïe, yn annghydmarol well nâ thrwy farweiddio ei alluoedd goreu mewn segurdod a chysgadrwydd trwy y dydd, neu wneyd gwas bach o hono, wrth yr hyn y golygwn fod dynion yn myned ar negeseuon ar ddydd Sul, y rhai allent ac a ddylent wneyd yn ystod yr wythnos. Nid yw yr esgus yma gan hyny o un gwerth son am dano; nid yw ond un gwael ac afresymol. Paham y dymunai unrhyw ddyn anaddasu ei hunan trwy lafurio gormod i fyned i dŷ Dduw? Gwnawd y Sabboth er mwyn dyn, ac i atteb y dybenion goreu; er ei ddiwylliant uwchaf, ac er ei ddedwyddwch penaf.

Y mae genym oll dalentau ac eneidiau, ac y mae genym i ddefnyddio y cyfryw yn ofalus, os ydym yn dysgwyl, gydag un gradd o reswm, bod o fendith i'r byd, a mwynhau dedwyddwch y nefoedd yn ol llaw. Ac yn wir ymddengys i mi na all un nef fod yn ein haros yr ochr draw i'r byd hwn a'r bedd os nad ydym yn mwynhau y blaenffrwyth yma; os nad ydym yn argyhoeddedig o wirionedd y geiriau hyny o eiddo yr Iesu, sef, "Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae." Os gwnawn y defnydd priodol o'n hamser yma trwy fyfyrio ar weithredoedd a gair ein Tad nefol; trwy feithrin cariad at yr addoliad cyhoeddus a'i wasanaeth Ef; trwy sefydlu ein hunain yn y santeiddiolaf ffydd, a pherffeithio ein cymmeriadau Cristionogol, byddwn barod, nid yn unig i gyflawnu ein dyledswyddau, gwrthwynebu temtasiynau, ymostwng yn ngwyneb treialon a mwynhau pleserau bywyd, ond hefyd i gyflawnu dyledswyddau a ofyna ein Tad oddiwrthym gyda'r parodrwydd mwyaf, ac yna i fwynhau y dedwyddwch sydd gyssylltiedig ag Ef. Yn y modd yma y mae yn bossibl i ni wneyd y Sabboth i atteb y dyben yr amcanwyd iddo atteb. Ond os na wnawn ddefnydd priodol

o hono mewn ystyr grefyddol; os y treuliwn ef mewn cysgu, neu mewn cyflawnu gweithredoedd bydol nad oes yr un angen o'u cyflawnu o gwbl, neu mewn arferiadau annghyfreithlon a diraddiol; mewn gair, mewn pechod, byddwn yn sier o ddyfod yn fwy bydol a phechadurus; collwn bob chwaeth at lawenydd pur a nefol crefydd; ffurfiwn arferiadau niweidiol, pechadurus, a drwg; amddifadwn ein hunain o bob gallu er dylanwadu er gwell ar ereill; yn amser afiechyd byddwn yn amddifad o gyssuron yr Efengyl, ac ar awr marwolaeth bydd y meddwl i gael ei lanw â meddylddrychau tywyll ac annymunol am y dyfodol. *Na fydded hyn ein cyflwr ni.* Na ddywedwn un amser ein bod ni yn rhy flinedig i fynychu yr addoliad dwyfol, ond yn hytrach bydded i ni gael ein meddianu gan yr un teimlad â'r Salmydd pan ddywedai, "Llawenychais pan ddywedaist, Awn i dŷ yr Arglwydd." Ni fydd yn esgus boddhaol yn llys y gydwybod nac yn y nefoedd.

Yr esgus nesaf a gawn sylwi arno yw hwn—*anhoffedd o'r pregethwr.* Os yw y gweinidog yn annghariadus, ac yn condemnio ac yn tynghedu i dragwyddol wae y sawl sydd yn dal yn dyn a chyda chydwybod dda syniadau croes i'w syniadau ef, ni ellir beio neb am droi ei gefn arno. Ni ellir beio neb am newid ei le o addoliad pan y gall fynychu man arall lle y mae addysgiadau crefyddol mwy cydunol â'i deimladau a'i olygiadau ef i'w cael. Ond ymddengys i mi ei fod yn beth eithaf afresymol i adael un eglwys oherwydd rhyw wahaniaeth bychan a dibwys mewn syniadau crefyddol, neu ryw ddiffyg dim gwerth son am dano yn null y gweinidog o siarad, neu osod allan ei feddylddrychau. Peth hollol afresymol a gwrthun ydyw dysgwyl i un person i feddwl ar bob pwnc, ac i draethu eu syniadau ar y cyfryw yn y fath fodd ag i foddio chwaeth amrywiol yr holl gynnulleidfa. Nid yw hyny ychwaith yn angenrheidiol, pe gellid ei wneuthur, er addysg, gwelliant, a chynnydd ysprydol. Nid yw ein Hiachawdwr wedi dweyd yn un man fod yn rhaid i'w holl ganlynwyr gydweled â'u gilydd yn hollol gyda golwg ar bethau crefyddol; ond y mae yn annog pawb i lafurio drostynt eu hunain, ac i farnu drostynt eu hunain. Ni fuasai yn dweyd wrth yr Iuddewon, "Chwiliwch yr ysgrythyrau, &c.," pe na olygai iddynt arferyd eu rheswm wrth chwilio i mewn i'w cynnwysiad. Dylai addysgiadau crefyddol gael eu rhoddi mewn cariad, a'u chwilio gyda gonestrwydd a ffyddlondeb. Yr ydym i brofi pob peth trwy reswm ac ysgrythyr, a dal wrth yr hyn ydym ni yn gredu sydd dda. Derbyniwn y gwirionedd a gweithredwn yn ei ol; darganfyddwn a gwrthodwn bob cyfeiliornad. Os ydym yn absenoli ein hunain o'r addoliad cyhoeddus hyd oni chaffom weinidog fyddo yn meddwl ar bob pwnc fel nyni, gan nad pwy ydym ni, yna nyni a absenolwn ein hunain i dragwyddoldeb. Nid oes dau berson, sydd wedi meddwl o gwbl drostynt eu hunain, ddim wedi meddwl yr un peth yn union erioed ar yr un pwnc, ac y mae yn bur debyg na fyddant fyth. Felly mae yr esgus yma yn ymddangos i mi yn un afresymol a gwrthun.

Yr esgus olaf gawn sylwi arno yw—*diffyg chwaeth neu awydd.* Clywir rhai dynion yn siarad fel yma.* Yr ydym wedi talu ein cyfran at gynnal yr addoliad cyhoeddus. Nid ydym yn aflonyddu neb yn y mwynhad o syniadau crefyddol. Mynychwn yr addoliad cyhoeddus pan y teimlwn awydd i wneyd felly, ac aroswn gartref, neu awn i'r lle y mynwn pan na theimlwn un awydd i fyned iddo. Os ydym yn absenoli ein hunain dri Sabboth o bob deg ni waeth i neb arall am hyny. Yn awr, pe buasech ar y mor, ac yn gweled llong yn cael ei gyru yn gyflym gan y gwynt yn erbyn y graig, tra yr oedd y cadben a'r morwyr yn cysgu, oni ddylech deimlo mai eich dyledswydd oedd eu dihuno a'u rhybuddio o'u perygl? *Dylem bid sicr*, yw yr ateb parod a rydd pob calon ddynol i'r gofyniad. Ond meddai y morwyr dihunedig, "Eiddom ni ein hunain yw y cwsg; eiddom ni yw ein llwyth: eiddom ni ein bywydau ein hunain, a pha fusnes oedd genych chwi i aflonyddu ein cwsg, neu ein deffroi o'n cwsg? Os ydym ni yn dewis gadael ein hunain i drugaredd y gwynt, y tonau, a'r creigiau, nid busnes neb yw ein haflonyddu, na siarad un gair mewn ffordd o rybudd wrthym." Ond meddai y dyn o ewyllys, egwyddorion, a dymuniadau da, "Cyflawnasom y weithred oddiar y cymhelliadau puraf; nid oedd gyda ni ddim mewn golwg ond eich dyogelwch chwi, a phan y sylweddolwch eich perygl fel ni, teimlwch yn wir ddiolchgar yn ddiau am eich rhyddhad, neu eich gwaredigaeth." Yn awr, dyma beth yn union yw yr atteb a ddylai gwir Gristionogion ei roddi i'r sawl sydd yn dwyn yr esgus yma yn mlaen. Rhoddwn y cynghor a'r cymhelliad yma i chwi er eich dyogelwch a'ch dedwyddwch eich hunain. Gwyddom, mor bell ag y gall prawf a sylw ddysgu i ni, eich bod chwi wrth absenoli eich hunain o'r addoliad Cristionogol, yn amddifadu eich hunain o un o elfenau puraf a mwyaf pwysig dedwyddwch sylweddol, daearol, a nefol. Yr ydych yn rhoddi esiampl na charech, ie yn wir, ac y gofidiwch pe buasai eich perthynasau, eich cyfeillion, a'ch teuluoedd yn ei efelychu. Yr ydych yn ffurfio arferiadau na roddant un boddhad i chwi, hyd y nod ar y foment bresenol, ac y maent yn sicr o ddwyn ffrwythau chwerw yn amser adfyd a thrallod. Yr ydym ni yn proffesu gwybod mor sicr a chwithau fod y morwyr mewn perygl o longddrylliad, dyma beth yw y caulyniad naturiol ac anocheladwy bob amser o fod dynion yn cysgu pryd y dylid bod ar ddihun. Credwn ni hefyd nad ydych wrth fyw yn anedifeiriol ac annghrefyddol yn gymhwys i fwynhau dedwyddwch y nef. Ac oni chawn ni eich dihuno a'ch dwyn i deimlo eich perygl—i'ch cymhell i feddwl yn ddwys am eich budd penaf yn y byd hwn a'r hwn a ddaw? A phe caffech eich dihuno a'ch dwyn i gyflawnu, gyda ffyddlondeb, eich dyledswyddau, buan iawn y buasech yn teimlo y dyogelwch, y cyssur, a'r diddanwch sydd gyssylltiedig â gyrfa wir Gristionogol. Yn oriau treialon, cewch fod uniondeb crefyddol yn gymhorth mawr i chwi—

* Y mae S. B. wedi gwneyd sylwadau pwrpasol iawn, fel y mae yn ymddangos i mi, ar yr esgus hwn yn ddiweddar iawn yn yr YMOFYNYDD, ac oblegyd hyny nj charwn wneyd ond ychydig sylwadau ychwanegol arno.

fod crefydd â'i gobeithion yn nerth i chwi mewn gwendid; a phan bydd eich llygâid yn cau yn angeu—yn cau ar bob gwrthddrych daearol, y geiriau olaf mwyaf tebyg ar eich tafod fydd geiriau o ddiolchgarwch am eich cyssur a'ch rhagolygon Cristionogol. Ac nid dyma i gyd. Y mae pob dyn yn attebol am ei esiampl ei hun. Os gall un esgeuluso yr addoliad cyhoeddus heb deimlo dim oblegyd hyny gall pawb wneyd hyny, ac yna gosodid terfyn ar wasanaeth crefyddol y Sul, a phob gwasanaeth arall. Difater, cysglyd, ac annghrefyddol dydd Sul, felly pob diwrnod arall. Pwy fyddai golledwyr wedi hyny? Ai gweinidogion y gair yn unig fel y tybia llawer o anffyddwyr a dynion anystyriol? Nid ydym heb wybod fod dynion i'w cael na roddai dim braidd fwy o foddlonrwydd iddynt nâ chlywed fod geneuau holl weinidogion cred wedi cael eu cau am byth; ond wrth fanylu ar gymmeriadau llawer o ddiystyrwyr gweinidogion y gair, cawn ein hargyhoeddi ar unwaith, pe buasai pawb yn dwyn yr un cymmeriadau â hwy, buasai y byd ar y cyfan yn mhell o fod yn y sefyllfa y mae ynddi yn bresenol. Gallasai y gweinidogion, lawer o honynt o leiaf, sicrhau annghydmarol fwy o gyssuron y byd hwn pe troent eu sylw at alwadau bydol. Pwy fuasai yn dyoddef? Corff mawr y bobl fuasai y dyoddefwyr mwyaf. Cymmerwn gipolwg ar y byd, ac yna beiddiwn ddweyd y caem ein hargyhoeddi, lle mae sefydliadau crefyddol yn cael eu cadw a'u cynnal oreu, mai yno y mae fwyaf o wybodaeth, daioni, a dedwyddwch. Pe deuai yr amser oddi amgylch pan y bydd ein haddoldai i gael eu gosod yn gydwastad â'r llawr, neu eu gadael, bydd i'r amser hwnw i'n cael ni yn bobl anwybodus, llygredig, a chaeth i bob drwg. Edryched pob dyn yn dda ar ei esiampl ei hun. Na rwystrer ni i fyned i dŷ Dduw gan achosion na fuasent ar un cyfrif yn ein cadw oddiwrth ein galwadau bydol a phleserau daearol. Nac ymddiriedwn mewn esgusodion na fyddant i foddio ein cydwybodau yn ein horiau sobr; y rhai fyddant i ddiflanu, fel y gwna y tywyllwch ar ymddangosiad yr haul, yn awr afiechyd a marwolaeth, a'r rhai allant godi yn ein herbyn a'n condemnio. Na orphwyswn ar un math o esgusodion, ond ar y fath *resymau* a allwn, yn gydwybodol, gynnyg i'n Tad nefol yn y dydd olaf.

B. W.

DEG O WAHANIAETHAU RHWNG UNDODIAETH AC "IAWNFFYDDIAETH."

Yn y tudalenau canlynol yr wyf yn bwriadu gosod allan yn fyr fy ngolygiadau fy hun, a'u cymharu a golygiadau uniawngred poblogaidd yr oes. Mae yn well genyf siarad drosof fy hun yn unig, oherwydd yr amrywiaethau barn sydd yn bodoli yn mhlith Undodiaid, y rhai ydynt yn codi yn naturiol pan mae perffaith ryddid nid yn unig yn cael ei ganiatau ond ei gymhell mewn materion crefyddol. Er fy mod yn

gwrthod yr hawl i siarad dros ereill, er hyny yr wyf yn teimlo yn hyderus fod y syniadau a gynnwysir yn yr hyn a ganlyn yn gosod allan sylwedd y gred sydd yn ffynu yn mhob man yn mhlith Cristionogion Undodaidd. Ac wrth osod i lawr y gred sydd yn ffynu yn mhlith Trindodiaid, yr wyf yn gadael heibio y gwahaniaethau sydd yn bodoli yn mhlith y gwahanol enwadau uniawngred, ac yn dethol allan yn unig yr athrawiaethau hyny ag y cytunant i gyd yn eu cylch.

I. Mae "Iawnffyddiaeth" yn gosod Duw allan fel yn bodoli mewn tri o bersonau, y rhai ydynt, er hyny, ond *un Duw*. Y tri person yma yw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan; pob un o honynt yn dragwyddol, yn bersonoliaeth ymwybodol; pob un yn anfeidrol mewn priodoleddau personol a moesol, megys gallu, doethineb, santeiddrwydd, trugaredd, gwirionedd; pob un yn meddu hawl i beth bynag a gynnwysir yn y gair Duw, a gyda'u gilydd yn gwneyd i fyny yr un Duw. Gall y gair 'Duw' gael ei ddefnyddio am bob un o honynt yn ei dro, ac am danynt i gyd gyda'u gilydd, fel ag y gallaf ddweyd fod y Tad yn Dduw gyda holl briodoleddau Duw, fod y Mab yn Dduw gyda holl briodoleddau Duw, fod yr Ysbryd Glan yn Dduw gyda holl briodoleddau Duw, ac etto nad oes ond un Duw,—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Gall pob un o honynt gael ei addoli fel Duw, ac mae'r tri i gael eu haddoli fel *un Duw*.

Yr wyf fi yn credu yn ngeiriau yr Apostol Paul, mai "I ni nid oes ond un Duw, y Tad;" y Duw goruchaf, unig wrthddrych addoliad. Yr wyf yn credu nas gellir gosod allan athroniaeth y Drindod yn iaith y Beibl, a'i bod hi wedi tyfu i fyny yn raddol yn yr Eglwys, ac wedi cael ei dechreuad yn nghyfundrefnau athroniaeth Groeg a'r Dwyrain; ac fod bodolaeth a pherffeithiad y Duw Goruchaf mewn un person yn syniad clir, syml, Beiblaidd, cywir, ysprydol, ac ymarferol.

II. Mae y dduwinyddiaeth boblogaidd yn edrych ar Iesu Grist fel bôd wedi ei wneyd i fyny o ddwy natur wedi eu huno mewn un person, hyny yw, mewn un ymwybodolrwydd, un ewyllys, un natur anfeidrol a dwyfol, a natur arall feidrol a dynol; un, yr ail berson yn y Drindod, yn bodoli o bob tragwyddoldeb, y natur arall yn ddynol, yn gyfyngedig, yn dechreu mewn amser. Mae *Efe*, (sylwch ar y gair *Efe* sydd yn dynodi personoliaeth) yn anfeidrol ac yn feidrol, yn farwol ac etto ddim yn agored i farwolaeth; yr oedd yn gwybod pobpeth, ac etto gallasai ddweyd, "Eithr am y dydd hwnw a'r awr ni wyr neb, na'r angelion sydd yn y nef, na'r Mab ond y Tad." Yr oedd *Efe* yn Dduw tragwyddol, etto wedi ei eni o fam ddynol. *Efe* a greodd y byd, etto fe fu farw marwolaeth y groes ar Galfaria.

Yr wyf fi yn credu, tra mae pawb yn blant i Dduw, fod Iesu Grist yn neillduol yn "Fab Duw," y mab dewisol a mwyaf anwyl yn ei debygolrwydd moesol i'r un Duw, y Tad cyffredinol, a'i gydymdeimlad ysprydol ag ef; y mab dewisol yn mawredd ei genadwri, gogoniant, a pherffeithrwydd ei gymmeriad moesol. Ynddo ef yr wyf yn gweled priodoleddau y Duw anfeidrol, yn gweithredu trwy gyfrwng meidrol. Mae efe i mi yn rag-gynllun o'r natur ddynol wedi ei pherffeithio, y bôd pur a santaidd hwnw, yr hwn trwy allu ei fywyd a'i farwolaeth sydd yn cynnorthwyo dynolryw i gyrhaedd ei *level* ei hun. Yn fy ngolwg i efe yw y Cyfryngwr, nid fel yn sefyll rhwng Duw a dyn, ac yn cyflawnu rhyw swydd neillduol, ond yn amlygu yr oll o Dduw yn foesol yn ei gymmeriad; gogoniant y Duw anfeidrol a thadol yn pelydru yn ngoleuni dynoliaeth. Mewn perthynas i sefyllfa yr Iesu o ran mawredd ei berson, mae Undodiaid yn gwahaniaethu yn fawr yn eu barnau; ond o'm rhan fy hun, nid wyf yn petruso dweyd, fy mod yn credu ei fod yn fab Joseph a Mair, a bod athrawiaeth y cenhedliad gwyrthiol wedi tyfu i fyny yn raddol oddiamgylch ei hanes, ac wedi cyssylltu ei hun â'r bywgraffiadau anmherffaith a geir o hono yn "Matthew" a "Luc."

III. Mae y dduwinyddiaeth boblogaidd, heb un eithriad feddyliwn, yn cynnwys yr athrawiaeth o *lygredd hollol* a *genedigol* y natur ddynol. Yr wyf yn deall yr athrawiaeth yma fel yn gosod allan nad oes un tueddiad mewn dyn, nac un gallu i wneyd unrhyw beth da, nes y byddo wedi cael ei ail-eni gan ddylanwad yr Ysbryd Glan; ei fod yn drwyadl ac yn gwbl lygredig wrth natur, mewn cymhelliadau a gweithredoedd, a bod pechod yn ddrwg anfeidrol, yn gofyn cosp dragwyddol.

Yr wyf yn credu fod yr ymadrodd "*llygredd genedigol*" yn wrthddywediad, oblegyd nis gellir beio un bôd am yr hyn nas gall oddiwrtho; a bod llygredd *hollol* yn athrawiaeth mor gyfeiliornus ag y gall fod o ran ffaith ac athroniaeth. Mae yn wir fod cyfanswm pechod yn y byd yn ofnadwy o fawr, ac wrth bechod yr wyf yn meddwl y cyflawniad ymwybodol a gwirfoddol o weithred ag y mae y pechadur yn wybod sydd yn *wrong*; ond mae pechod yn ammod dysgyblaeth ac addysg ddynol. Mae'n rhaid i ddyn ffaeledig ac anmherffaith, er cyrhaedd yr hyn mae Duw wedi fwriadu iddo fod, basio trwy y brofedigaeth bwysig yma. Gosododd Pascal y pwnc yma allan yn gyflawn pan y dywedodd, "O fawredd a bychander, rhagoroldeb a llygredd, ardderchawgrwydd a gwaeledd y bywyd dynol." Pwy all wadu nad oes *tueddiadau* etifeddol? Pwy all gredu fod *cuogrwydd* etifeddol? Mae hunan-gariad yn egwyddor naturiol, ac o ganlyniad yn un ganmoladwy; mae gormodedd hunan-gariad yn *hunanoldeb*, yr hyn yw pechod. Cyfartalu yn iawn wahanol elfenau ein bywyd yw gwaith bywyd. Pechod yw peidio ymdrechu gwneyd hyn, neu ei wneyd yn rhanol, ac mae hyn yn fwy neu lai pechadurus yn ol fel byddo'r amgylchiadau, ond nid yw'r pechod byth yn hollol anfeddyginiaethol.

IV. Ystyria "Iawnffyddiaeth" yr *iawn* fel gweithred ag sydd yn cynnwys yr unig foddion i gyrhaedd iachawdwriaeth, i waredu y credadyn oddiwrth boenau tragwyddol i'r rhai mae'n ddarostyngol. Yr wyf yn meddwl nad wyf yn gwneyd cam a barnau un o'r sectau uniawngred, wrth ddweyd fod, yn ol eu duwinyddiaeth hwy, y rhai sydd yn marw yn eu mabandod, gan eu bod yn etifeddu natur hollol lygredig, yn cael eu hachub o golledigaeth yn y byd dyfodol trwy aberth iawnol Iesu Grist. Mae gwrthddadleuon yn erbyn yr athrawiaeth yma sydd yn cyfansoddi conglfaen y ffydd uniawngred, mor anhawdd eu hatteb, fel mae llawer ymgais wedi ei gwneyd i'w hesponio a'u rhesymoli. Credir gan yr enwadau uniawngred yn gyffredinol fod yr hil ddynol yn agored i gosp a gwae tragwyddol oherwydd pechod, ac nas gallasai trwy unrhyw ymdrechion o'i heiddo ei hun ochelyd y dynged ofnadwy yma. Mae marwolaeth Iesu Grist yn gyllun dwyfol er gwaredu dyn oddiwrth y dynged a haeddai, ac ar yr un pryd yn cadw cyfiawnder, anrhydedd, a gwirioneedd Duw yn ddilwgr. Felly mae un o'r tri pherson yn y Duwdod yn uno â natur dyn, ac yn y diwedd yn marw yn nghanol dygnboenau y groes er cymmodi Duw â dyn. Mae rhai yn dweyd y darfu i'r Iesu ddyoddef a marw yn unig fel dyn; dywed ereill iddo ddyoddef fel Duw. Mae rhai yn ystyried ei farwolaeth fel aberth lythyrenol i dawelu digofaint y Tad; edrych ereill ar ei groeshoeliad fel arddangosiad o ddigofaint Duw yn erbyn pechod. Mae yn ddiriwy wedi ei thalu, yn ddyled wedi ei chroesi allan, yn benyd wedi ei dyoddef, neu yn ymryson rhwng y priodoleddau dwyfol wedi ei gymmodi. Mae santeiddrwydd Crist yn cael ei gyfrif i gredinwyr; eu pechodau yn cael eu cyfrif iddo. Mae'n dyoddef y dirboenau sydd yn ddyledus iddynt hwy am byth, ac felly mae cyfiawnder Duw yn cael ei foddloni, ac fe all fadden, (ond sut mae e'n maddeu pan mae'r ddyled wedi ei thalu yn barod, nid wyf wedi gweled erioed un eglurhad.) Maent oll yn cytuno i ddweyd fod gan farwolaeth Crist effaith gymmodol ar feddwl Duw, a bod y rhai a achubir yn cael eu hachub trwy fod rhinwedd yr hyn a ddyoddefodd ac a wnaeth Crist drostynt yn cael ei gyfrif iddynt.

Yr wyf yn gwadu y ddau haeriad yma yn ddiammodol. 'Does dim eisieu ar Dduw i gael ei dawelu a'i heddychu: ei natur yw cariad. 'Does dim eisieu arno i gael y ffordd wedi ei hagor er mwyn maddeu; yr oedd y ffordd bob amser yn agored. Nid yw ei gyfiawnder a'i drugaredd yn gofyn cael eu cymmodi, oblegyd ni fuont erioed mewn ymryson a'u gilydd. Nid oedd gan farwolaeth Crist unrhyw effeithioldeb neillduol, unrhyw swydd ar wahan oddiwrth ei fywyd. Yr oedd yn aberth a goronodd ei fywyd anhunanol, a chyssegredig i ddaioni dynion, a pha faint bynag o effeithioldeb achubol sydd yn mywyd, gwaith, dyoddefiadau, a marwolaeth yr Iesu, mae'n cael ei ddwyn i weithrediad *ar* y galon ac *oddifewn* iddi; nid ydynt wedi gwneyd dim yn *ein lle* ni, nac wedi prynu un ffafr drosom ni; ond mae ynddynt allu i ddeffroi, i berswadio, i ennill ac i argyhoeddi meddwl a chalon dyn. Mae'n anhawdd i mi cael geiriau i osod allan yn iawn fy nheimlad mor annghysson, mor afresymol, mor wrthun mae'r golygiad cyffredin am yr iawn yn ymddangos i mi. Nid yw pechod a santeiddrwydd yn faterion o gyfrifiad; nis gall cosp fod yn ddirprwyol, ac nis gallwn gael yn un o weithredoedd Duw yn natur awgrym at unrhyw beth mor chwithig, mor annghydweddol a threfn gyffredin pethau, gymmaint allan o'r dull dwyfol (fel pe byddai) â'r holl gynllun yma, sydd wedi cael ei ddyfeisio a'i weithio allan yn nghanol tywyllwch y canol oesoedd. Gwaith Crist yw cymmodi dyn â Duw, nid Duw â dyn; ac mae'n gwneyd hyn trwy ddadguddio ac amlygu cariad tyner, amyneddgar, tadol, maddeuol, a holl gynnwysfawr Duw at ei blant. Nid oedd yr olygfa ar Galfaria ddim yn arwydd fod cyflwr rhan o'r byd yma oedd o'r blaen yn ddigymmorth, ac yn agored i golledigaeth, wedi cyfnewid; ond "Myfi, os dyrchefir fi oddiar y ddaear," meddai'r Iesu, "a dynaf bawb ataf fy hun." Ac mae'n gwneyd hyny. Mae'r gwaith bendigedig o hyd yn myned yn mlaen.

I'w barhau.

TEITHAU CENADOL Y PARCH. J. DAVIES, ALLTYPLACA.

Mr. GOL.—Yn unol a'ch cais ymdrechaf osod ger bron darllenwyr yr YMOFYNYDD ychydig o'm profiad yn fy nheithiau cenadol. Yn yr ail wythnos o fis Hydref diweddaf cychwynais o orsaf Llanybyther yn llawn o deimladau cynhyrfus—teimladau os na feddaf iaith i'w desgrifio nad ant byth yn anghof arnaf—teimladau a fyddant byth mwy yn feithriniaeth i'm bywyd ysprydol. Weithiau byddwn yn troi fy ngolwg yn ol at y lliaws cyfeillion ag yr oeddwn am dymhor o leiaf i fod yn absenol oddiwrthynt, â'r rhai yn y cyfamser nis gallaswn ymgymysgu i gyfranogi o'u llawenydd, nac i gydymdeimlo a hwynt yn eu trallod. Yr oedd yr ystyriaeth o ansicrwydd y bywyd dynol yn awgrymu i mi y gallasai llawer o amgylchiadau gymmeryd lle yn ystod fy absenoldeb, yn y rhai y buasai'n ddymunol o bob tu fy mod yn bresenol. Cofiwn gydag anwyldeb am y plant oeddent wedi arfer dangos cymmaint o deimlad da tuag ataf, a galarwn am nad oeddwn yn alluog i roddi cymmaint ag a fedrwn o faeth i'r blagur ieuainc, gobaith yr oes ddyfodol. Bryd arall byddwn yn troi fy ngwyneb yn y blaen, ac yn ceisio edrych dros faes newydd fy llafur, a sylweddoli yn y presenol yr hyn a allai y dyfodol fod. Byddwn yn ymgryfhau ar brydiau yn

yr ystyriaeth o'r cynnydd mawr y mae duwinyddiaeth wedi wneyd yn y blynyddoedd yma, ac o'r yspryd rhyddfrydig sydd yn nodweddu y wasg Seisnig; ond byddwn yn fynych yn gwangaloni wrth gofio nad oes ond ychydig neu ddim o'r llenyddiaeth ryddfrydig yn adnabyddus yn y Gymraeg, fod pwy bynag a anturio roddi cam yn y blaen yn cael ei ddynodi fel heretic peryglus, a bod trigolion gweithfaoedd Morganwg a'r cylchoedd, fel rheol, yn fwy sectol eu hyspryd, ac felly yn llai agored i dderbyn unrhyw oleuni newydd nâ thrigolion gwledig y dywysogaeth. Gyda rhyw deimladau cymmysgedig fel hyn y cychwynais tua Llanelli. Yno, ar yr orsaf, yn ol fy nysgwyliad, cyfarfyddais â'r diweddar David Thomas, dilledydd, (y pryd hwnw o Lanelli ond cyn hyny o Bantydefaid, Ceredigion) gwr, er wedi marw erbyn hyn, sydd yn llefaru etto, ac un, er ei fod yn Undodwr selog, a berchid yn fawr yn nhref Llanelli. Cefais ymddiddan adeiladol ag ef am ryw hanner awr, yn nghwrs yr hwn yr addawodd wneyd pob parotoadau angenrheidiol ar gyfer fy ymddangosiad cyhoeddus yn Llanelli. Yna, cychwynais yn y blaen tua Chwmafon, yr hwn a gyrhaeddais yn gynnar yn y prydnawn, Cyfeiriais fy nghamrau i dy Mr. W. Davies, lle y cefais dderbyniad croesawus iawn. Dywedodd y cyfaill wrthyf ei fod wedi hyspysu'r frawdoliaeth oll fy mod i ymweled a'r lle, ac y dysgwyliai eu gweled yn dyfod yn nghyd yn yr hwyr. Yr hwyr a ddaeth, ond ni ddaeth yno neb. Wedi aros ychydig am danynt, teimlais awydd i fyned i edrych am hen gyfeillion i mi a drigent ger llaw yno; a hen aelodau o hen eglwys Alltyplaca. Daeth y cyfaill allan gyda mi, gwelsom y cyfeillion yn iach a chysurus fel y dymunem iddynt fod; ond i raddau pell, wedi colli eu cariad cyntaf mewn pethau crefyddol, ac wedi ymuno a'r Trindodiaid. Fodd bynag, cefais lety cysurus ganddynt, a phob arwyddion o ddymuniadau da. Dichon mai un rheswm na ddaethai y brodyr yn nghyd y noson hono oedd, nad oeddent yn gwybod yn sicr pa un ai y noson hono neu bore dranoeth y buaswn yn dyfod. Un peth sydd genyf i ddweyd am danynt, h. y., addawsant roddi gwybod i mi pa bryd y byddai'n gyfleus i mi i fyned yno drachefn, ond nis rhoisant. Codais yn fore dranoeth a chychwynais dros y mynydd i Gastellnedd, ac oddiyno i Aberdar. Teimlwn yn gartrefol iawn yno yn nghymdeithas ysprydoedd cydnaws â'm yspryd fy hun. Deallais yn fuan fod y trefniadau angenrheidiol ar gyfer fy mynediad i Gwm Rhondda wedi eu gwneyd, a bod cyfarfod cyhoeddus i gael ei gynnal yn Tonypandy, nos Iau, pryd y dysgwylid y Parch. E. W. Lloyd, a minnau i siarad, ac felly y bu. Cawsom gynnulleidfa weddol. Addawodd yno ryw ychydig nifer i wneyd eu goreu dros yr egwyddorion, a da genyf ddweyd fod dau o honynt yn ffyddlon iawn. Yr wyf wedi colli fy ngolwg ar ereill. Tebyg eu bod wedi symmud i ryw le arall, fel y mae'n dygwydd yn aml yn y rhanau hyn ar amser gwael. Dyma waith yr wythnos gyntaf. Byddai'n ormod i fanylu fel hyn ar waith pob wythnos ar ei phen ei hun, am hyny ymdrechaf eu swmio i fyny. Ymwelais wedi hyn a Llanelli dair gwaith, Treorci bum' gwaith, Tonypandy bedair, Dowlais dair, Rhymni ddwy, a Threherbert un. Yn Llanelli, amrywiai nifer y

gwrandawyr o 450 i fil. Yn Dowlais y mae rhyw 200 yn ymgasglu bob tro, ac y maent yn edrych yn ddynion gwaraidd iawn, yn gwrandaw'n astud, ac yn mhob ystyr yn edrych fel efelychwyr y Bereaid gynt, y rhai a chwilient yr Ysgrythyrau a oedd y pethau hyn felly. Y mae yn y lle hwn hefyd nifer luosog o Undodiaid, deallais, y rhai a fyddent, pe mewn undeb cymdeithasol â'u gilydd, yn allu mawr er daioni yn y lle. Y noson gyntaf yn Rhymni, daeth rhyw 200 o bobl yn nghyd, ond rhwystrwyd ni i gynnal gwasanaeth gan ormod swn aelodau rhyw gymdeithas ag oedd yn gwledda oddiarnom. Ni ddaeth cynnifer yn nghyd yr ail noson yma, oherwydd, meddid, fod anwyl ddyn y bobl, "Mynyddog," yn cadw cyngherdd mawreddog yn rhywle yno, a bod gwr a fuasai unwaith yn weinidog parchus gyda'r Annibynwyr yn y lle, yn pregethu yn yr eglwys. Y mae yn Rhymni amryw na phlygasant eu gliniau i Baal y dduwinyddiaeth boblogaidd. Yn Treorci y mae'r gwrandawiad wedi amrywio o 150 i 12. Fodd bynag, y mae yma le gobeithiol. Yr hyn sydd yn angen yma ydyw cenadwr sefydlog yn y lle, a gwr gwir ymroddedig i'w waith. Y mae yma ddynion a deimlent hyfrydwch i fod yn gydweithwyr ag ef. Yma y trig y byd-enwog Caradog, yr hwn sydd Undodwr goleuedig, a'r hwn a berchir yn fawr gan ei gymmydogion, o bob gwedd o dybiau duwinyddol, fel dyn trwyadl. Yma hefyd y mae meibion y diweddar Dr. Davies, o'r Ddinas, dynion nad ydynt ail i neb mewn parch ac anrhydedd yn mysg y miloedd ydynt yn preswylio yn y Cwm. Y mae yma lawer ereill llai adnabyddus, ond nid llai eu gwerth moesol yn ol eu graddau mewn cymdeithas.

Nid yw Tonypandy yn edrych i mi etto gwbl mor obeithiol. Ychydig iawn mewn cymhariaeth yn yr ardal boblog hon sydd yn gwybod dim am egwyddorion duwinyddiaeth rydd. Y mae'r cwbl a berthyn i grefydd a duwinyddiaeth yn ymddangos i'r bobl yma mor gadarn a sefydlog â'r bryniau a'u hamgylchynant o bob tu. Gwaith sydd yn gofyn amynedd a llafur caled yw cyffroi meddyliau fel hyn i ddechreu chwilio dim drostynt eu hunain. Ac mae'r anhawsder hwn yn cynnyddu trwy'r ymdrech sydd yn cael ei wneyd mewn cyfarfodydd eglwysig i ddarbwyllo dynion "i beidio myned i wrando *scamps* o Sir Aberteifi, ag ydynt yn myned ar draws y wlad i ddweyd celwyddau." Yn wir y mae prosenoldeb gweinidogion Undodaidd mewn capel iawnffyddol yn ddiweddar iawn wedi peri i'r gweinidog ymddangos fel pe yn methu llywodraethu ei hun. Y mae gweinidogion yn rhybuddio eu praidd o'r areithfa o'r perygl sydd o fyned i wrando Undodwr yn dweyd ei gredo, ac ereill yn pasio penderfyniadau eu bod yn annghymmeradwyo'r ymdrech sydd yn cael ei wneyd i wenwyno meddyliau pobl eu tref hwynt â Sosiniaeth. Tyned y darllenydd y casgliad a welo'n fwyaf naturiol oddiwrth ymddygiadau fel hyn. Ein casgliad ni yw hyn, fod yn y dynion hyn ryw syniad dwys am wendid ei hachos cyn y byddent yn ymdrechu cymmaint i godi castelli fel hyn oddiamgylch meddyliau dynion, i'w rhwystro hwynt i weled pa flodau amryliw allant fod yn tyfu mewn maes cyfagos na welsant hwy erioed. Casgliad arall yw nad oes gan ryddymofynwyr ddim i'w ofni ond haer-

llugrwydd a chreulondeb y bleiddiaid rheibus ag ydynt yn dyfod atynt yn nghrwyn defaid. Y mae'r gwirionedd yn sicr o lwyddo er gwaethaf dynion a diaflaid. Y mae Hollalluogrwydd o du meddyliau iawn, egwyddorion iawn, a bywyd iawn.

Rhaid i mi derfynu'n bresenol gyda rhoi ger bron eich darllenwyr adroddiad y *Llanelly Guardian* o gyfarfod diweddaf Llanelli, a dywedyd wrthynt gyda llaw fod adroddiadau ardderchog o'r unrhyw wedi ymddangos hefyd yn y *Welshman*, yr *Unitarian Herald*, yr *Inquirer*, a'r *Christian World*, a bod cyfeiriadau wedi cael eu gwneyd mewn amryw bapyrau ereill. Derbynied ein cyfeillion perthynol i'r wasg ein diolchgarwch gwresocaf am eu hyspryd anmhleidiol, a bydded hyspys i Mr. Davies, Siloah, nad oeddwn i yn gwybod dim am y teimlad annghristionogol oedd gan drigolion Llanelli, at yr hwn y mae efe yn dewis alw yn ymyrwr. J. D.

"YSGELERWAITH YN LLANELLI.—GWEINIDOG AC EREILL WEDI CAEL EU *MOBBO*.

Nos Lun diweddaf, Tach. 29, gwnaeth y Parch. J. Davies, gweinidog Undodaidd Alltyplaca, yn nghyd â'r Parch. D. Evans, Maesymeillion, eu hymddangosiad yn yr Athenæum Hall, Llanelli, gyda bwriad i gynnal gwasanaeth mewn cyssylltiad â'u henwad, gan nad oes yr un capel ganddynt yn y dref. Traddododd y Parch. J. Davies anerchiad galluog ar 'Athrawiaeth yr Iawn,' ac wed'yn cafwyd pregeth ymarferol gan y Parch. Mr. Evans oddiar Rhuf. xiv. 17. Fel ar yr achlysur diweddaf, yr oedd y siarad ar led fod y Parch. Mr. Davies, Siloah, yn bwriadu gwrthwynebu y darlithydd, ac fe fu cystal â'i air, oblegyd y rhan gyntaf o'r cyfarfod yr oedd yn eistedd ger y llwyfan *(platform)*, wed'yn symmudodd i fyny i eistedd ar gadair yno, gyda llyfr yn ei law er gwneuthur nodiadau, a siaradai â'r rhai oeddynt o'i gylch, a hyny pan oedd y llefarwyr yn anerch y dorf, nes peri iddynt synu am ei ymddygiad. Cafodd yr Hall ei gorlenwi, ac yn ystod y ddarlith a'r bregeth yr oedd yno aflonyddwch parhaus, yn tarddu yn ddiau oddiar ddiffyg lle; ond yr oedd yno un person yn enwedig, yr hwn a elwir Davies, er mwyn ceisio dangos ei benwendid, yn dynwared ebychiadau tarw, &c., pan oedd y bregeth yn cael ei thraddodi; ac i ddweyd yn blaen, hwn a'i gyffelyb oeddynt yr unig achos na fyddai y dorf yn gallu clywed y siaradwr. Ar ol gorpheniad y bregeth, gweddiodd y gweinidog yn ddifrifol, gan geisio bendith Duw ar bawb oeddynt yn bresenol; ond nid hwyrach clywyd llais afrywiog arall yn gwaeddi allan ar y Parch. T. Davies, Siloah, i lefaru, ac yn uniongyrchol dacw ef ar ei draed, ac yn gofyn caniatad y darlithydd i gael siarad; ond ei gais a wrthodwyd. Er hyn i gyd, parhaodd Mr. Davies i ddeisyf drachefn a thrachefn. Ar ol i gydsyniad gael ei nacau, dechreuodd y gynnulleidfa fyned yn derfysglyd ac aflywodraethus, ac yr oedd ugeiniau yn gweithio eu ffordd i fyny i'r *platform*, ac yn amgylchynu y darlithydd ar bob tu, mewn ymryson am y pamphledau oedd efe yn rhanu yn eu mysg. Cafodd Mr. Davies ei ddirmygu, ei wthio, ei watwar, ac yn mhob dull ei sarhau, ac yr oedd y terfysgwyr iawnffyddiog â'u holl egni yn ceisio cipio y pamphledau o'i ddwylaw yn *wholesale*. Nid hyn ydyw'r unig engraifft o'u camymddygiadau, oblegyd gorfuwyd ereill oeddynt wedi cael rhai i'w dosparthu rhwng eu cyfeillion i'w rhoddi i fyny gan y cythrublwyr, ac felly yn wirioneddol syrthiodd y Samariaid i ddwylaw lladron. Pan oedd y terfysgwyr yn cario yn mlaen eu gweithrediadau gwallgofus, yr oedd y Parch. T. Davies yn difyru ei hun yn eu plith trwy wenieithio a gwenu, ac yn dangos yn amlwg ei fod yn gorfoleddu yn eu hymddygiad cariadus, dewr, a gwir Gristionogol, canys ni wnaeth yr

ymgais lleiaf er dystewi y terfysgwyr, ac fel y gwyr pawb, mae y dynionach hyn mor llwyr dan ddylanwad eu gweinidogion, fel y byddai arwydd â'r llaw neu air yn unig oddiwrthynt yn foddion digonol er tawelu eu cyffro. Ond na, yr oedd gan Mr. Davies amgenach gwaith i ymwneyd ag ef; yn bur anfoneddigaidd, cymmerodd feddiant o'r Hall er mwyn hyspysu y byddai ef yno ei hunan yn darlithio nos Fercher; ond ni wyddom ni a gymmerodd hyn lo neu beidio, ac nid ydym yn malio ychwaith, oblegyd byddai pob peth a ddywedai yn dderbyniol gan y fath fleiddiaid rheibus ag oedd yno y noson dan sylw. Nid ydym ni, wrth gwrs, yn dymuno cyfeirio y nodiadau hyn at bawb oeddynt yn bresenol, canys ymgynnullodd llawer er mwyn ceisio gwrando y darlithiwr, y rhai wrth ymdrechu tawelu ereill, fuont yn wrthddrychau melldithion afrifed ac atgas, yn nghyd â hwtiadau, edliwiadau, a bygythion echryslawn. Ië, y rhai oeddynt yn ymddwyn yn fwyaf gweddus a boneddigaidd oedd y rhai sydd yn cael eu hadwaen yn y lle fel yn coleddu syniadau anffyddol a rhyddymofynol; etto yr oedd y rhai hyn wedi yfed yn helaethach o yspryd yr Athraw Mawr nâ'r crefyddwyr proffesedig a fynychant leoedd addoliad. Erbyn hyn yr oedd yr holl neuadd wedi ei throi i fod yn eithaf gwallgofdy. Chwibanu, bloeddio, gwthio, a'r tyngu mwyaf ofnadwy, ac hefyd y bygythion mwyaf brawychus oedd yn disgyn ar glustiau y darlithydd oddiar bob llaw, a hyny a wnaed yn aml gan wyr a adwaenir fel yn proffesu Cristionogaeth. Enciliodd y darlithydd i ystafell tuecfn, a'r pamphledau yn ei law, gan adael y *platform* i Mr. Davies a'i ŵyn. Pan yn yr ystafell hon, cafodd y darlithydd ei dynu oddiamgylch a'i wthio am oddeutu 15 mynud, nes o'r braidd y diangodd heb gael ei fogi, ac oni bai dewrder dihafal Mri. Phillip Peregrine a Thos. Rees, New Dock, yn ei gipio heb eu het o'u dwylaw, buasai yn ddiau wedi ei fogi yn wirioneddol, oblegyd yr oeddynt yn ymdrechu i wasgu o bob tu iddo, yn ceisio ei ddamsang, ac yn ymddangos fel wedi penderfynu ei dagu, ac yn wir yr oedd ymadroddion Cymreig i'r perwyl yn cael eu defnyddio. Wedi llwyddo mor bell i achub y darlithydd, cariwyd ef i lawr y grisiau, ac yno yn ei ddysgwyl yr oedd tyrfa arall o derfysgwyr Cristionogol, nes y gorfu iddo fyned i gongl gyferbyn â'r drws o'r hwn y mae mynedfa i'r Neville Memorial. Pan yma yr oedd anfadwyr gwatwarus ar y grisiau yn eu gwthio â'u holl egni. Ond o'r diwedd, llwyddodd Mr. Bowen, y drysor, i agor y drws, a thrwy lawer o drafferth gwnaeth Mr. Davies a'i ddau gyfaill eu ffordd allan trwy *green* Mr. Randall, a thros y mur ger tŷ Mr. Cratchley, er mwyn cyrhaedd yr heol, a chael lletty tawel o'r fath ddwndwr. Mr. J. A. Williams, o'r *Guardian Office*, oedd un o'r rhai a lynasant wrth Mr. Davies er ceisio ei ddyogelu ger y drws rhag iddo gael ei lethu ganddynt; ond ni welodd Mr. Williams yn addas i fyned allan gyda'r darlithydd. Yn fuan dechreuodd y Cristionogion (?) ffyrnigwyllt ymosod arno, a rhai canoedd a'i gwthiasant yn ol a blaen am oddeutu deng mynud, nes trwy drugaredd ciliodd allan yn ddamweiniol o'u mysg. Ond cyn gynted ag y deallasant ei fod wedi dianc, dylynasant ef gan floeddio trwy Bridge-street, Market-street, ac mor bell â thŷ Mr. Evans, Grocer; ond yn ddamweiniol yn y fan hon collwyd ef, trwy iddo droi fyny i heol fechan o'r neilldu, ac felly myned o'r golwg.

Yr uchod sydd adroddiad gwirioneddol a ffyddlon o ymddygiad y terfysgwyr, y rhai oeddynt yn ol pob ymddangosiad wedi cydymgynnull gyda rhagfwriad ac amcan i wneyd y sarhad gwaradwyddus hwn ar ryddid personol, ac yr ydym yn cael ein cyfiawnhau wrth ddweyd eu bod wedi cael eu hanog i raddau trwy weled eu blaenor, y Parch. T. Davies, Siloah, yn ymddangos ar y *platform*, gyda nodiadau yn ei law, gyda'r bwriad diamheuol o gael siarad, er y gwyddai yn dda ddigon oddiar brofiad o'r cyfarfod blaenorol, na chai ganiatad. Mae yn llawn bryd i weinidogion yr Efengyl i ddysgu gwersi cyntaf y grefydd y maent yn ei phroffesu, sef hyn-

awsedd, addfwynder, a chariad brawdol, heb son am weddeidd-dra a moesgarwch cyffredin bywyd beunyddiol. Nid ydym yn y nodiadau blaenorol yn dymuno cynnwys neb o aelodau yr eglwysi a'r capeli Saesneg, nac ychwaith fynychwyr parchus a synwyrlawn y capeli Cymreig; ond y terfysgwyr hyny sy'n cymmeryd eu cylch-arwain gan eu gweinidogion dallbleidiol, a'r rhai a gredant fod pob peth yn gyfraith a ddysgir iddynt gan babau bychain eu capeli."

Cyf. D. J. (Glaswalch), o'r *Llanelly Guardian.*

Ar ol rhoddi hanes o'r cyfarfod dan y penawd "Haid o fleiddiaid Cymreig," mae'r *Christian World*, papur Seisnig dylanwadol iawn, yn terfynu fel yma:—"Cymmerodd hyn le mewn gwirionedd yn Nghymru dim ond wythnos yn ol. Mae'n darllen fel tudalen o adroddiad cenadol o Central Affrica, neu o ynysoedd anwaraidd Mor y De, neu bennod o Actau yr Apostolion. Cawn edrych yn y blaen gyda pheth dyddordeb am adroddiad o'r *indignation* (digllonedd), yr hwn ni ellir braidd ei gadw yn ol, oddiwrth weinidogion parchus a phobl Gristionogol Llanelli, a byddwn yn falch i roddi lle iddo yn ein colofnau."

Yr wythnos ganlynol, derbyniodd golygydd y *Christian World* amryw lythyrau oddiwrth y Parch. Thomas Davies, Siloah, ac ereill, yn ceisio pylu blaenllymdra yr hanes, os nid yn amddiffyn yr hyn a gymmerodd le, ac fel hyn mae'r *Christian World* yn tynu ei gasgliad:—"Mae hyn yn sicr o hono ei hun yn ddigon i ddangos fod rhai, o leiaf, o bobl Llanelli etto *heb ddysgu hyd y nod egwyddorion cyntaf rhyddid crefyddol.* Yr oedd gan Mr. Davies hawl i ddosparthu'r papurau, ac yr oedd gan Mr. Williams hawl i fod lle yr oedd, ac nid oedd gan neb hawl i ymyraeth. Nid oedd gwneuthur felly ond *simple intolerance*, y cyfryw ag a ddylai bob amser ac yn mhob lle gael ei gondemnio a'i wrthwynebu."

Dywed *Baner ac Amseran Cymru* mai "Dwyfoldeb Crist*" oedd pwnc y ddarlith, a therfyna fel hyn:—"Clywyd llefain o 'mwrdwr' gan amryw. Mawr a fu y cynhwrf. Nid yn fuan y daw y gwr i Lanelli etto." Yn yr un *Faner* ceir hanes darlith y Parch. Thomas Davies, Siloah, Lleurwg yn y gadair. Pasiwyd y penderfyniad canlynol:—"Fod y cyfarfod hwn yn dymuno cyflwyno ei ddiolchgarwch gwresocaf i'r Parch. Thomas Davies am ei ddarlith amddiffynol ragorol i athrawiaethau y Drindod a'r Iawn, ac yn cwbl annghymmeradwyo y ceisiadau a wnaed yn ddiweddar i wenwyno meddyliau pobl ieuainc Llanelli ag athrawiaethau Sociniaeth."

Dywed y *Tyst a'r Dydd* fod cyfarfod y Parch. Thomas Davies wedi pasio yn dawel a heddychol. Bydd yn dda gan ddarllenwyr yr Ymofynydd ddeall hyn, ac na ddarfu i Undodiaid Llanelli ymddwyn tuag at eu gwrthwynebwyr y modd y darfu i'w gwrthwynebwyr ymddwyn tuag atynt hwy. Bydded iddynt ymddwyn yr un modd yn y dyfodol.

---

* Pwnc Mr. Davies, Alltyplaca, oedd "Iawn Crist."

LLITH O GWMBYCHAN.

* * * * * *

Mae un peth yn fy mlino yn fawr iawn, sef nad oes achos Undodaidd mewn lle mor boblog â hwn. Gellwch fod yn sicr nad oes un dyn yn y byd yn caru Undodiaeth a'n gweinidogion anwyl yn fwy nâ myfi; ac y mae yn llawenydd mawr iawn i fy meddwl fod bwriad i adnewyddu ein hachos yn meddwl ein gweinidogion. Ond nis gellir gwneuthur gwaith mawr heb fod digon o *dools* i wneyd y gwaith. Yn ol fy meddwl i, nis gellir taenu ein hegwyddorion gwerthfawr heb i ni gael rhagor o bregethwyr nag sydd genym ni yn bresenol. Nid yw yn rhyfedd fod yr enwadau Trindodaidd yn blodeuo gymmaint yn fwy nâ ni; y rheswm o hyny yw, am eu bod yn neillduo bechgyn ieuainc a fyddo a defnydd ynddynt yn eu hysgolion Sabbothol i bregethu, a chanlyn eu galwedigaethau beunyddiol ar yr un pryd. Mae yma lawer o'r fath yn y cwm hwn, ac yr wyf yn eu hadnabod yn eithaf da, a llawer o rai ereill hefyd yn dyfod yma yn eu tro, ac yn traddodi pregethau rhagorol, cystal a gwell nâ llawer o'r hen weinidogion, ac heb fod mewn un athrofa erioed. Ond cofiwch, y mae dysgeidiaeth uchel yn werthfawr iawn i'r sawl a allo ei chael hi; yr oeddwn yn gwrando bachgen ieuanc yn pregethu dydd Sul diweddaf ag sydd yn byw yn y ty nesaf ond un i mi, ac yr oeddwn yn teimlo gofid yn fy nghalon yn y cwrdd am na byddai gyda ninau fechgyn ieuainc yn cael eu codi yr un modd i bregethu ein hegwyddorion anwyl a gwerthfawr trwy holl siroedd Cymru, ac yn ol fy marn wirioneddol i, nis gallwn gael llewyrch mawr ar ein hachos heb i ninau gymmeryd yr un llwybr. Mae Mr. Davies wedi talu ymweliad â ni, ond ni chawsom un bregeth ganddo y tro hwn, yr ydym yn chwilio am le iddo gyferbyn a'r tro nesaf. Nid yw ef am gael un capel, ac fel hyny, mae yn anhawdd i ni gael lle digon mawr, oblegyd yr ydym yn sicr y bydd yno ganoedd yn ei wrandaw. Yr wyf wedi dosparthu y *tracts* a gefais, ac fe fyddai yn dda iawn pe byddai genyf lawer yn rhagor, oblegyd yr wyf yn credu y gwnant fwy o ddaioni nâ dim arall yn y lle hwn i beri i'r dynion i ddeall beth yw Undodiaeth. Yr wyf wedi cael canmoliaeth mawr iddynt gan amryw sydd wedi eu darllen.

Hydref 23ain, 1875. Evan Lewis.

Priodas.—Y mae yn dda genyf eich bod wedi priodi, ac yr wyf yn eich llongyfarch yn y modd mwyaf calonog. Yr ydych yn awr yn y ffordd i ddyfod yn ddinesydd defnyddiol; ac yr ydych wedi dianc cyflwr annaturiol gweddwdod dros fywyd—tynged llawer yma nad ydynt erioed wedi ei fwriadu; y rhai ydynt, ar ol hir oedi cyfnewid eu cyflwr, yn cael allan yn y diwedd ei bod yn rhy ddiweddar iddynt feddwl am hyny, ac yn byw eu holl fywydau mewn cyflwr sydd yn bychanu gwerth dyn yn fawr iawn. Nid yw *odd volume* mewn cyfres o lyfrau ddim yn dàl ei gwerth mewn cyfartaledd i'r gyfres. Beth feddyliech am un hanner i gisiwrn? Nid all e' dori dim yn dda, dichon y gwasanaetha i grafu tatws.—*Dr. Franklin.*

Manion.

Diwedd pob peth.—Y llythyren "h."

Pwy ydyw y mwyaf celwyddog? Yr hwn sydd yn llefaru mwyaf am dano ei hunan.

Mae'r ci yn y cenel yn cyfarth ar ei chwain, y ci sydd yn hela nid yw yn eu teimlo.

Gallwch eistedd yn berffaith lonydd, a thyfu mewn drygioni; ond os ydych am dyfu mewn rhinwedd, mae'n rhaid i chwi godi a gweithio.—*Josh Billings.*

Pwysau Gwlaw.—Gellir ffurfio rhyw feddyliddrych am bwysau gwlaw wrth ystyried fod modfedd o ddyfnder o hono, yn gwneuthur 161 o dunelli i'r cyfair (erw).

Mae geiriau brysiog yn fynych yn cadw yn agor y clwyf fyddo wedi cael ei wneuthur trwy ryw niwed; mae y geiriau esmwyth yn ei ddofi, maddeuant yn ei wellhau, ac annghofio yn symmud y graith i ffwrdd.

Bechgyn i'w canmol.—Cawn fechgyn sydd yn ceisio helpio eu hunain. Dylai pob un fod yn gyfeillgar iddynt. Bechgyn llawn yni, ac awydd i ddod yn y blaen, y rhai a wnant ymgais ddynol i wneuthur rhywbeth drostynt eu hunain, ydynt asgwrn cefn y wlad.

Ateb i bwrpas.—"Yn ol Milton, arferai Efa gadw'n ddystaw yn Eden i wrandaw ei gwr yn llefaru," ebe boneddwr un tro wrth gyfeilles, ac yna ychwanegodd mewn tôn melancolaidd, "Och, nid oes un Efa wedi bod byth wedi'n."—"Mae hyny," oedd yr ateb parod, "oherwydd nad oes un gwr wedi bod byth wedi'n yn werth i wrandaw arno."

"A ydych yn meddwl mai ffwl ydwyf?" ebe dyn o dymher frysiog un tro wrth Dr. Bethune. "Yn wir" ebe'r Doctor yn ateb, "ni fuaswn i byth yn beiddio gwneuthur yr haeriad; ond yn awr, gan eich bob yn gofyn i mi fy opiniwn, mae'n rhaid i mi addef nad wyf yn barod i ddywedyd na."

Blinid offeiriad yn fawr un amser gan rai o'i wrandawyr a aent allan yn ystod y bregeth. Un Sul cymmerodd yn destyn, "Ti a'th bwyswyd yn y glorian ac a'th gaed yn brin." Yn fuan wedi dechreu ei bregeth dywedodd, "Byddwch cystal a phasio allan mor gynted ag y byddoch wedi eich pwyso."

Gohebiaethau.

EIN CYRDDAU CHWARTEROL A BLYNYDDOL.

Mr. Gol.,—Y mae ysgrif Ap C. yn yr Ymofynydd diweddaf yn brawf ychwanegol at yr hyn ydym wedi gael yn flaenorol, nad yw "canlyniadau Cwrdd Blynyddol Cwmbach ddim yn mhlith y pethau a fu."

Dymunaf ddweyd wrth Ap C. nad wyf fi ddim yn meddwl fy mod yn perthyn i'r blaid hono sydd yn myned, ar rai prydiau, dan yr enw *Tories;* ond nid allan o le efallai fyddai dweyd fod yr hyn sydd yn cael ei ystyried yn gynnyg at welliant gan un dosparth o ddynion, gan nad i ba blaid y perthyna iddo, yn cael ei ystyried yn y gwrthwyneb gan ddosparth arall. Ond cyn y gall neb ddweyd pa un ai da neu ddrwg fyddo unrhyw gynllun, angenrhaid yw ei ddwyn gerbron y gwahanol ddosparthiadau a phleidiau mewn geiriau mor amlwg a diamwys ag y byddo modd, ac yna y mae gobaith y bydd iddo gael ystyriaeth, ac wedi hyny gael ei fabwysiadu neu ei wrthod. Yn awr, nid wyf fi yn cofio fod Ap C. wedi gosod o flaen darllenwyr yr Ymofynydd un cynllun neilldiol, ond yn unig awgrymu y byddai yn beth o'r goreu ac yn ddoeth i ni efelychu mwy ar ein brodyr Undodaidd yn Lloegr.

Ymddengys fod Ap C. yn cytuno gyda mi yn nghylch yr amcan mewn golwg wrth gynnal y cyfarfodydd uchod, ac yr wyf yn meddwl y cytuna â mi yn mhellach yn hyn, sef na all un dyben uwch a gwell fod mewn golwg wrth gynnal pob math o gyfarfodydd llenyddol a chrefyddol.

"Rhy fach o gydymdeimlad yn bodoli rhwng ein gweinidogion a'u gwrandawyr,"

&c. Y mae y frawddeg hon yn debyg i gyllell ddwyfiniog. Os yw y cyhuddiad yn wir, dylid nodi allan yn mha le y gorwedd y bai, oddieithr fod bai o'r ddwy ochr, ac os felly dynoether ef, yna y mae gobaith na fydd i aflonyddu yr un o honynt mwyach. Yr wyf fi wedi dal cyssylltiad agos iawn ag un o'n heglwysi am lawer o flynyddau bellach, ac yr wyf yn tystio yn y modd mwyaf amlwg a chroew fod y gweinidog a'r gynnulleidfa yn cydymdeimlo â'u gilydd yn y fath fodd fel ag y mae gan y gynnulleidfa gymmaint o olwg ar y gweinidog ag sydd gan y gweinidog ar y gynnulleidfa. Mewn gair, y mae cymmaint o gydymdeimlad yn bodoli rhyngddynt ag a allesid ddymuno. Ni allaf fi ddim ateb dros ragor nag un eglwys, ond y mae yn beth possibl ddigon fod cylch gwybodaeth Ap C. yn llawer mwy eang nâ'r eiddo fi o berthynas i'r cydymdeimlad y sonia am dano.

"Dealled U. O. Y. . . . a phe amgen gallwn wrthbrofi ei ddywediad o barthed i'r Cwrdd y prydnawn yn Sir Forganwg." Heriaf Ap C. i wneyd hyny. Yr wyf wedi mynychu y rhan amlaf o ddigon o'n Cyrddau Blynyddol a Chwarterol yn Nghymru er ys yn agos i chwarter canrif, ac oblegyd hyny *dylwn* wybod faint oedd yn mynychu y Cwrdd prydnawn yn Sir Forganwg, yr hwn a gynnelid fynychaf yn y *long rooms* y byddai y gweinidogion a'u cyfeillion wedi ciniawa ynddynt.

Carwn wneyd rhai sylwadau ar y darn olaf o lythyr Ap C., ond gan fod a fyno â'r dyfodol, a chan ei fod ef yn lledawgrymu ei fod yn pwrpasu bod yn y Cwrdd nesaf yn y Wig, pryd y carwn i yn fawr (pe gallwn fod yno), yn gystal ag ewyllyswyr da ereill ein hachos mi wn, glywed Ap C., gan nad pwy ydyw, yn dwyn mater o gymmaint pwys ag y cyfeiria ato dan sylw y Cwrdd, a gobeithiwyf o galon y bydd ei resymau dros ei gynllun da y fath ag i argyhoeddi y gwyddfodolion oll, yn gystal ag ereill, o'r pwys mawr iddynt i wneyd yr oll a allant, law a chalon, o'i blaid; a phe gwnelai pawb sydd yn proffesu Undodiaeth hyny, nid wyf yn tybied y byddai ganddynt achos i edifarhau oblegyd gwneyd felly yn y dyfodol, ña chan ein gwrthwynebwyr achos i siarad mor ffraeth am ein diffygion. Diau fod eisiau llawer rhagor o fywyd yn ein plith yn y dywysogaeth.

U. O. Y.

LLYTHYR AT Y GOLYGYDD.

Mr. Gol.—Y ffordd yma, ar yr adeg bresenol, Darlithiau y Parch. John Davies, Alltyplaca, yw testyn siarad pobl pob enwad ag sydd yn teimlo unrhyw ddyddordeb mewn pethau crefyddol. Mewn perthynas i'r mater hwn, fel mewn materion ereill o'r fath, y mae amrywiaeth barn. Dywed rhai o'r uniawngred eu bod yn ddarlithiau campus, tra dywed ereill eu bod yn wael iawn; ond y peth rhyfeddaf yw ei barn yn nghylch y rhai a'u gwrandawent. Mae rhai o broffeswyr crefydd yn cyfiawnhau ymddygiad gwarthus y rhahyny a gymmerasant ran yn y terfysg diweddar yn Llanelli, ac hyd y nod eu gwaith yn gwasgu y darlithydd bron i farwolaeth!

Pa gyssondeb sydd yn ngwaith arweinwyr y bobl yn siarad cymmaint am anfon cenadon i leoedd tywyllion y ddaear i bregethu yr Efengyl, pan y mae eu haelodau eu hunain yn cyfiawnhau peth mor warthus â hyn! Mae llawn eisieu iddynt anfon cenadon at Gymry Llanelli. Deallaf oddiwrth y *Llanelly Guardian* am Rhagfyr 9fed, fod cynllun ar droed gan y Mollahs i anfon cenadon yno o Constantinople, a gobeithaf y llwyddant i'w darbwyllo i ganiatau i ereill yr un rhyddid a garant hwy eu hunain gael—i wneuthur i ereill fel y dymunent i ereill wneuthur iddynt hwy.—Ydwyf, &c.,

St. Clears. D. P.

Marwgofion.

Medi 1, Anne Jones, Winllan, ger Pantdefaid, yn 35 oed. Yr oedd wedi bod yn afiach am amser maith. Claddwyd hi ar y 3ydd o Fedi, yn Pantdefaid. Pregethodd T. Thomas, ar yr achlysur.

Medi 22, yn 63 oed, Jane, priod David

Jones, gynt o Pantygwndwn, ond yn ddiweddar o Maesymeillion, Llandyssil. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn Pantdefaid, pryd y gweinyddodd y Parch. T. T. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn ffyddlon iawn gydag achos yr Ysgol Sabbothol yn Bwlchyfadfa, ac wedi hyny yn Pantdefaid Byddai yn dda pe codai rhywun i fyny. lanw ei lle.

Tachwedd 4, William Joseph, o'r Allt-wen, yn 89 oed. Yr ydoedd yn gerddor medrus, a dysgodd lawer i ganu yn amser boreu ei oes. Yr oedd yn hen wr dison drwg am dano; gwedi myned yn bur feth-iedig yn ei flynyddau diweddaf. Claddwyd ef y Sul canlynol yn y Gellionen, yn medd ei briod, yr hon oedd wedi ei flaenu i'r "tŷ rhagderfynedig" er's llawer iawn o flynydd-au, pryd daeth tyrfa fawr o gymmydogion a pherthynasau yn nghyd i dalu eu cym-mwynas olaf i'r hen bererin. Gweinydd-wyd gan y gweinidog.—*J. E.*

Tachwedd 5, yn 57 oed, bu farw Sarah Evans, Ty'nffynnon, ger Capelygroes. Cladd-wyd hi y dydd Mawrth canlynol yn nghladd-fa'r capel uchod. Pregethodd T. T., ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn afiach am flynyddau meithion, a chan nad oedd argoel adferiad iechyd, y bedd oedd y man goreu. Mae'r diofn yn ddoeth, a bydded i'w phriod a'i phlant gael nerth i weled hyn.

Tach. 16, Mr. David Harries, diweddar o Gellionen, plwyf Llangyfelach, yn 83 oed. Gadawodd weddw ac un ferch i alaru ar ei ol. Yr oedd yr ymadawedig er's blynyddau yn agored i gael math o *ffitiau*, ac yn un o rhai hyn y bu farw, a hyny yn bur ddi-symwth. Claddwyd ef yn y Gellionen y Llun canlynol, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Evans, gweinidog y lle. Yr oedd yr ymadawedig wedi cael dyddiau lawer; yn ddyn cymmeradwy iawn yn ei ardal; ei gynghor bob amser yn cael gwrandawiad gan ei gymmydogion, er yn byw yn mhlith dynion nad oedd ganddynt ond ychydig o gydymdeimlad crefyddol ag ef. Bu fyw ar yr un tyddyn ardrethol oddiar pan y priododd, hyd o fewn i ddwy neu dair blynedd yn ol, pryd y rhoddodd y fferm i fyny, ac aeth ef â'i gydmar i fyw at eu merch i Gefnfforest, yn yr un plwyf. Arferai gyrchu i Gellionen er yn ieuanc, pan yn byw gyda'i dad yn Nantyricket, plwyf y Bettws. Cadwodd yn mlaen drwy ei ddyddiau. Yr oedd ganddo gryn bellder i ddyfod i'r capel o'i gartref, ond ni fyddai ei le yn wag nemawr byth tra yr ydoedd yn iach. Gwasanaethodd y swydd o ddiacon yn y Gellionen am flynyddau maith, gyda sel a chyflawn foddlonrwydd cyffredinol i'r gynnulleidfa; ond oblegyd ei afiechyd yr ychydig flynyddau diweddaf, bu orfod arno roddi ei swydd i fyny. Siaradai Mr. James, o'r Gellionen, yn uchel iawn am y dyn tawel a da hwn. Ei weddw, yr hon sydd yn hiraethlon iawn ar ol ei chydmar, sydd yn agos yr un oedran ag ydoedd yr ymad-awedig, ac yn ferch i David Davies, o Lach-artfach, yr hwn ydoedd yn ei amser yn un o brif golofnau'r achos yn Gellionen, ac a safodd i fyny, yn mhlith ereill, yn ddewr mewn amser terfysglyd, pan y ceisiai y Trindodiaid gael meddiant o'r capel. Bydd-ed i'r hen wraig, druan, yn ei hen ddyddiau, er wedi cael ei gadael yn unig am ryw dym-hor, i orphwys ar y gobeithion gwynfydedig ag y mae Cristionogaeth yn roddi, ac yn mha egwyddorion y mae hi wedi cael ei dysgu er yn ieuanc. Na fydded iddi dristau fel heb obaith am ail-gyfarfod mewn 'stâd well, i adnewyddu'r gymdeithas a ddech-reuwyd ffurfio yma ar y llawr. Y cyfiawn: gwyn eu byd.—*J. E.*

Tachwedd 16, yn 80 oed, Joshua Jones, Cellancwrt, Cellan. Gweinyddwyd yn y tŷ ar ddydd ei gladdedigaeth gan y Parch. R. C. Jones, ac aethpwyd â'r brawd diniwed hwn i'w fedd yn mynwent eglwys y Bettws. Nerth gaffo'r plant a'r perthynasau i fod yn gymmedrol yn eu galar. Bu yn aelod yn Caeronen ac yn Cilgwyn, cyn dod i gymmydogaeth Cellan.

Tachwedd 21, yn 36 oed, William Evans, Capeli, Llanbedr. Gadawodd weddw a phedwar o blant i alaru ar ei ol. Bydded i'r weddw gael nerth i gofio y gallasai pethau fod yn waeth, a gobeithio y bydd ei phlant yn gyssur iddi. Pregethwyd yn yr angladd gan y Parch. D. Evans, B. A. Claddwyd ef yn Caio.

Tachwedd 24, yn 2 fis oed, Anne, baban James a Mary Evans, Moelhedog, Llan-dyssil. Claddwyd hi yn Pantdefaid y dydd Gwener canlynol, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. T. Thomas.

Tach. 30, yn 75 oed, Elizabeth Williams, Blaenwaun, Llancrwys. Gweinyddwyd yn ei hangladd gan y Parch. R. C. Jones. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd yn mynwent Caeronen. Yr oedd yn aelod o eglwys Caeronen.

Barddoniaeth.

GWENWCH PAN Y GALLOCH.

Pan gaffoch bethau'n tynu'n groes,
A phendramwnwgl oll yn llithro,
Mewn ceintach peidiwch treulio'ch oes,
Wna hyny ond cynnyddu'r bendro.
Pan gewch eich hun mewn penbleth mawr,
Y cynllun doethaf lawer, wyddoch,
Yw dwyn yr oll â chalon ddewr,
A cheisio gwenu pan y galloch.

Paham yr ofnwch fory? gwnewch
Yspeilio heddyw wrth wneyd hyny;
Can's pan fenthycioch drallod, cewch
Yn sicr rywbryd etto dalu.
Hoff yw'r ddiareb hon gan i,
Ond ni phregethir digon arni,
Na chroeswch bont, fy nghyfaill cu,
Cyn byddoch wedi dyfod ati.

Hebgorech fyrdd o ddagrau drud,
Pe cadwech yn eich meddwl beunydd,
Fod da a drwg yn hyn o fyd,
I'w cael yn wastad gyda'u gilydd.
Mae'n rhaid fod diffyg rhywle'n bod,
Er ichwi rolio yn eich golud,
Bydd, f'allai, o drysorau'ch cod
Y perlyn hwn yn eisieu—iechyd.

Yn gryf a gwrol gellwch fod,
Ond gellwch etto fod mewn t'lodi;
Mae rhai treialon îs y rhod
Ag ydynt lawer gwaeth nâ hyny;
Ond p'un ai bywyd trist neu lon,
Ar eich daearol daith a gaffoch,
Daw yn fwy dysglaer oll o'r bron
Wrth geisio gwenu pan y galloch.

Rhagfyr 7, 1875. C. F.

PEDWAR ENGLYN I 'TELYN DEWI,'

Sef gweithiau yr anfarwol Fardd o Gastell Hywel.

Telyn bu llawer teulu—goleu am
Ei gweled a'i meddu,
'R awrhon ca'dd eu cwynion cu,
Yn hollol eu diwallu.

Cynnwys mae weithiau ceinion--hen Ddafis
Fu'n ddifyr a ffraethlon;
Daionus y rhydd dynion
Wobr i'n hiaith wrth brynu hon.

Llawn synwyr coeth, doeth, a del,--hynodol
Syniadau aruchel;
Purach, melusach nâ mêl,
Holl awen Castell Hywel.

Hen awen mewn dillad newydd,—Telyn
Wna bob teulu'n ddedwydd;
Ei chaniad, heb achwynydd,
Elo ar daen fel goleu'r dydd.

Gwarnant Williams.

GAIR O GALONDID.

Rhowch air calonogol i'r blin a helbulus,
I'r rhai mae'u holl fywyd yn fywyd trallodus;
Gall un gair caruaidd ysgafnu'u calonau,
Ac un wên o gariad ddysglaerio'u bywydau.

Rhowch air calonogol i'r gweithiwr, mae t'lodi
'N ei fygwth yn enbyd—rhowch help iddo'i drechu—
A phan byddo'n drist o dan fyd o ofalon,
Rhowch air i sirioli a chodi ei galon.

Rhowch air calonogol i'r hwn sydd yn wylo
Ar ol rhywun anwyl—edrychwch am dano;
Mae'i galon yn chwyddo gan ing a chaledi,
O d'wedwch y gair wnelo'i chadw rhag tori.

O d'wedwch wrth bobun ryw air calonogol,
Mae'n iechyd i'r galon, 'does dim mor rhagorol;
Mae hefyd mor hyfryd a hawdd i'w ddefnyddio,
Trueni bod undyn mor ffol a'i 'sgeuluso.

F. S. S.

ENGLYN.

Diarebion xix. 17.

Digonawl os yw dy geiniog,—gyfaill,
Gwna gofio'r angenog;
Ni all llaw roddi gwell llôg
Nâ llaw yr Hollalluog.—G.G.

TALIADAU.

W. T., Mill St.; J. J., (Eiddil Cynon); D. E., Tregroes; D. L. M., Bryn[illegible]an; W. J., Cwmbach; D. T., Pantmeddyg; W. G., Pontyberem.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS.

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

Y CWRDD CHWARTEROL.

Bydd y Cwrdd Chwarterol Nadolig i gael ei gynnal yn y Wig, ger Penbont-ar-Ogwy, ar y 29ain a'r 30ain o'r mis hwn. Danfonir Cerbydau i gwrdd â'r gweinidogion i Benybont prydnawn dydd Mercher, i'w cludo i'r Wig. Gobeithiwyf y bydd cymmaint o honynt yn bresenol ag a allo. "Beth sydd i'w ddeall wrth Ffydd yn yr Ysgrythyrau?" fydd pwnc y Gynnadledd. TITUS LLOYD.

CRISTIONOGAETH UNDODAIDD,

GAN SAMUEL SHARPE.

4 tdd. Pris 10s. y fil, 1s. 3c. y cant, 2 geiniog y dwsin.

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s. a 6c. y cant.

Dyma gyfleusdra i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y telerau uchod. Anfoner at The Editor of YR YMOFYNYDD, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

PIGION O EMYNAU.

AIL ARGRAFFIAD,

Yn cynnwys 31 o Emynau, o waith amryw awdwyr, pris ceiniog, neu wyth swllt y cant. Anfonir 25 a throsodd yn rhydd trwy'r post.

☞ Dealler nad ydys wedi bwriadu hwn i fod "Y Llyfr Emynau," ond yn unig lanw bwlch dros amser, ac i gyfarfod âg angenion gwaeddfawr ein cynnulleidfaoedd. Pob [illegible]archebion i'w hanfon at Olygydd YR YMOFYNYDD

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfarwedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.